

## **CYTUNDEB COMISIYNU**

**Gwneir y Cytundeb hwn y                      diwrnod o    2017**

### **RHWNG:**

- (1)            **S4C** o Barc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU ("S4C"); a
- (2)            [ ] o [cyfeiriad] (Rhif Cwmni [ ])            ("y Cynhyrchydd")

### **RHAGYMADRODD**

Mewn cydnabyddiaeth am yr ymrwymadau ar ran y Cynhyrchydd a gynhwysir yn y Cytundeb hwn, mae S4C yn comisiynu'r Cynhyrchydd i ac mae'r Cynhyrchydd yn cytuno i wneud, cynhyrchu a Chyfleu'r Rhaglen yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn.

### **CYTUNDEB**

Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys y Telerau Safonol a'r holl Atodlenni fel y'u hamrywir hwy gan yr Amodau Arbennig.

### **TELERAU SAFONOL**

#### **Adran 1            -            Diffiniadau a Dehongliad**

1.1            Y mae'r diffiniadau canlynol lle bo'r cyd-destun yn caniatáu yn weithredol yn y Cytundeb hwn:

Adroddiadau:    yr adroddiadau cynnydd y gwaith a'r adroddiadau cost sydd i'w cyflwyno gan y Cynhyrchydd yn unol â Chymal 4.6;

Amodau Arbennig:    yr amodau arbennig a osodir yn Rhan D Atodlen 3;

Amserlen Gynhyrchu:    amserlen gynhyrchu'r Rhaglen a gyplysir yn y Briff Golygyddol a Busnes;

Anghydfod Cyffredinol:    unrhyw streic, cloi allan, cyflwr llafur neu weithredu diwydiannol neu anghydfod llafur arall gwirioneddol nad sydd wedi ei achosi gan unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu ar ran y Cynhyrchydd, ei swyddogion, gweision, cyfarwyddwyr, cyfranddalwyr neu aelodau o'r un grŵp o gwmnïau;

Anghydfod Lleol:    unrhyw streic, cloi allan, cyflwr llafur neu weithredu diwydiannol neu anghydfod llafur arall gwirioneddol nad yw'n Anghydfod Cyffredinol;

Banc:    y Banc a nodir yn y Briff Golygyddol a Busnes;

Brîff Golygyddol a Busnes: y Brîff Golygyddol a Busnes yn Atodlen 1;

Cadarnhad Hawliau: y cadarnhad hawliau sydd ynghlwm yn Atodlen 3;

Canllawiau Brand S4C: canllawiau brand S4C a gyhoeddir ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu unrhyw fersiwn diwygiedig o'r fath ganllawiau a gyhoeddir gan S4C o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;

Canllawiau

Cydymffurfiaeth S4C: y canllawiau sy'n berthnasol i bob agwedd o gynhyrchu, cyfleu a darlledu unrhyw a phob rhaglen a gomisiynir a/neu a ddarllidir gan S4C o dro i dro yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn gan gynnwys ond heb gyfyngiad y dogfennau canlynol yn gyfunol sydd yn weithredol ar ddyddiad y Cytundeb hwn:

Canllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni;  
Canllawiau Cydnabyddiaethau S4C;  
Canllawiau Brand S4C;  
Canllawiau Nawdd S4C;  
Canllawiau Isdeitlo S4C;  
Cynllun Iaith S4C;  
Canllawiau Rhyngweithio neu Gystadlu S4C;  
Canllawiau S4C ar Osod Cynnyrch;  
y Gofynion Technegol;  
Ymrwymiad Amrywiaeth S4C;

ynghyd â chanllawiau presennol S4C o ran iechyd a diogelwch, Toriadau Hysbysebu, cyfleoedd cyfartal a Pholisi Amddiffyn Plant S4C neu unrhyw fersiynau diwygiedig o unrhyw un o'r uchod neu unrhyw fersiynau newydd sy'n cymryd eu lle neu unrhyw ganllawiau ychwanegol iddynt a gyhoeddir gan S4C ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau statudol neu gyfreithiol S4C (gan gynnwys ond heb gyfyngiad gofynion y Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 neu unrhyw orchmynion neu reoliadau neu offerynnau statudol a gyhoeddir yn ei sgil) ond ar yr amod na fydd unrhyw ganllawiau newydd neu ddiwygiedig neu ychwanegol yn weithredol i'r Rhaglen hyd nes y bydd S4C wedi hysbysu'r Cynhyrchydd ohonynt a darparu copi(au) ohonynt i'r Cynhyrchydd;

Canllawiau

Cydnabyddiaethau S4C: y canllawiau cydnabyddiaethau a'r ddogfen 'Cydnabyddiaethau Cynhyrchu' a gyhoeddir ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu unrhyw fersiwn diwygiedig o'r fath ganllawiau a gyhoeddir gan S4C o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;

Canllawiau Rhyngweithio  
neu Gystadlu S4C:

y ddogfen 'Canllawiau Rhyngweithio neu Gystadlu ar raglenni S4C' a gyhoeddir ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu unrhyw

fersiwn diwygiedig o'r fath ganllawiau a gyhoeddir gan S4C o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;

Canllawiau Isdeitlo S4C: y ddogfen 'Canllawiau S4C ar gyfer Is-deitlwyr yng Nghymru' a gyhoeddir ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn fel y'i hamrywyr gan God Gwasanaethau Mynediad Teledu Ofcom ar ddyddiad y Cytundeb hwn, a'r ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gyfleu defnyddiau isdeitlo a defnyddiau atodol eraill i S4C' neu unrhyw fersiwn diwygiedig o'r fath ganllawiau a gyhoeddir gan S4C neu Ofcom o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;

Canllawiau Nawdd S4C: Adran 9 o God Darlledu Ofcom ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu unrhyw ganllawiau diwygiedig a gyhoeddir gan Ofcom o dro i dro yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;

Canllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni: y ddogfen "Canllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni, Gwrthdaro Buddiannau ac Diddordebau Gwleidyddol" a gyhoeddir ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn a Chod Darlledu Ofcom ar ddyddiad y Cytundeb hwn, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn, neu unrhyw fersiwn diwygiedig o'r fath ganllawiau a gyhoeddir gan S4C a/neu Ofcom o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn ynghyd â Chanllawiau Iaith S4C ac unrhyw ganllawiau ychwanegol neu atodol (uwchlaw Cod Darlledu Ofcom) a gyhoeddir neu fabwysiadir gan Awdurdod S4C yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;

Canllawiau S4C ar Osod Cynnyrch: y ddogfen 'Canllawiau S4C ar Osod Cynnyrch' a gyhoeddir ar safle cynhyrchu Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddir gan S4C o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;

Canolfan Ddarlledu S4C: canolfan ddarlledu S4C sydd wedi ei leoli yn y cyfeiriad a roddir i S4C ar ddechrau'r Cytundeb hwn neu fel yr hysbysir fel arall yn ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd gan S4C;

Comisiynydd: y comisiynydd cynnwys unigol sydd â chyfrifoldeb penodol dros y Rhaglen ac a nodir yn adran 1.4 o'r Briff Golygyddol a Busnes;

Cerrig Milltir: y cerrig milltir a osodir yn Atodlen 6;

Copi Darlledu: copi gorffenedig o'r Rhaglen (a phob pennod ohono) y bwriedir ei ddarlledu gan S4C;

<u>Cyfleu:</u>	cyfleu'r Rhaglen yn unol â darpariaethau'r Cytundeb hwn a'r Gofynion Cyfleu erbyn y Dyddiad Cyfleu a Dyddiad Cyfleu yr Isdeitlau;
<u>Cyfrif Banc:</u>	y cyfrif banc a agorir gan y Cynhyrchydd dan Gymal 4.12;
<u>Cyllideb:</u>	y gyllideb ar gyfer cynhyrchu a Chyfleu y Rhaglen a sicrhau'r holl hawliau sy'n ofynnol dan y Cytundeb hwn sef y gyllideb sydd yn rhan o'r Briff Golygyddol a Busnes ac sydd hefyd wedi nodi yn Atodlen 2 i'r Cytundeb hwn ac sy'n pennu costau'r Elfennau Allweddol a'r costau eraill ar gyfer y Rhaglen;
<u>Cynllun Hyfforddi:</u>	cynllun hyfforddi er budd y diwydiannau cyfryngau creadigol;
<u>Cynllun Iaith S4C:</u>	Cynllun Iaith Gymraeg S4C sydd yn weithredol ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu wedi ei ddiweddarau ar ôl dyddiad hwn y mae copi ohono ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C;
<u>Cynnwys S4C:</u>	y Rhaglen ac unrhyw a phob rhan ohoni gan gynnwys clipiau, deunydd crai a Deunydd Trydydd Partion;
<u>Cytundeb:</u>	y Cytundeb hwn a'r Atodlenni sydd ynghlwm wrtho a'r dogfennau a ymgorfforir ynddo trwy gyfeiriadaeth;
<u>Cytundebau Perthnasau Diwydiannol:</u>	y cytundebau ar gyfer rheoli perthnasau diwydiannol a negydwyd â chyrrff sy'n cynrychioli cyfranwyr i wneuthuriad y Rhaglen neu unrhyw ran ohoni ac a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan S4C;
<u>Chwarter:</u>	cyfnod o dri mis calendr, yn diweddu ar Fehefin 30, Medi 30, Rhagfyr 31 neu Fawrth 31 mewn unrhyw flwyddyn galendr o ddyddiad y Cytundeb hwn;
<u>Darllediad Cydamserol:</u>	darllediad cydamserol o'r Rhaglen ar fwy nac un cyfrwng neu blatfform sydd, neu a fydd yn wybyddus o hyn allan ar yr un pryd yn union fwy neu lai;
<u>Darllediad Dilynol</u>	yr hawl i ddarlledu'r Rhaglen ar unrhyw elfen o Wasanaethau S4C sydd yn cynnig darllediad wedi saib amser o'r allbwn ynghyd a'r hawl i ddarlledu yn Gydamserol;
<u>Darlledu/Darllediad:</u>	unrhyw fodd o ddarlledu neu gyfathrebu sy'n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn boed yn llinol neu'n rhyngweithiol a chan gynnwys ar bob platfform digidol a rhwydweithiau priodol fel y diffinnir ym mharagraff 5(8) o Atodlen 12 Deddf Gyfathrebiadau 2003 ond ac eithrio'r Hawliau Dal-i-Fyny. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth bydd pob Darllediad yn cynnwys un Darllediad Cydamserol ac un Darllediad Dilynol heb dâl pellach gan S4C;

<u>Datganiadau Banc:</u>	datganiadau a gyhoeddir gan y Banc sy'n berthnasol i'r Cyfrif Banc;
<u>Deddf:</u>	Deddf Hawlfraint Dyluniadau a Phatentau 1988 fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;
<u>Deddfau Plant a Phobl Ifanc:</u>	y Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;
<u>DDD:</u>	Deddf Diogelu Data 1998;
<u>DdRhG:</u>	Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd ac unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wnaed dan y ddeddf honno o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â'r fath ddeddfwriaeth;
<u>Deunydd Trydydd Partïon:</u>	unrhyw ddeunydd a ymgorfforir neu y bwriedir ei ymgorffori yn y Rhaglen y mae unrhyw rai o'r hawliau hawlfraint neu unrhyw hawliau eraill o ba bynnag natur wedi eu breinio yn unrhyw drydydd partïon neu a reolir ganddynt;
<u>Deunydd y Rhaglen:</u>	yr holl ddeunydd o ba natur bynnag a gynhyrchir, a feddiennir neu a gesglir gan y Cynhyrchydd wrth ddatblygu a chynhyrchu (gan gynnwys cyn ac ôl-gynhyrchu) y Rhaglen, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddeunydd a gwybodaeth ymchwil, deunydd wedi'i ffilmio a'i recordio gan neu ar ran y Cynhyrchydd, perfformiadau a chyfweiliadau a recordir a'r holl ddeunydd dros ben neu a wrthodwyd, a grëwyd yn ystod y datblygu a'r cynhyrchu neu sy'n tarddu o'r datblygu a'r cynhyrchu ynghyd â holl gyfraniad y Cynhyrchydd a'r holl bersonél a gytundebir gan y Cynhyrchydd neu sy'n darparu gwasanaethau mewn perthynas â'r Rhaglen gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i greu, addasu, neu newid unrhyw waith y mae hawlfraint ynddo ond, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, heb gynnwys unrhyw Ddeunydd Trydydd Partïon;
<u>Diwrnod Gwaith:</u>	unrhyw ddiwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru;
<u>Dyddiad Cyfleu:</u>	dyddiadau Cyfleu y Rhaglen fel y'i nodir yn y Brîff Golygyddol a Busnes a/neu Atodlen 4 a dyddiad(au) Cyfleu'r Wybodaeth am y Rhaglen a bennir yng Nghymal 3.7;
<u>Dyddiad Cyfleu yr Isdeitlau:</u>	dyddiad cyfleu yr isdeitlau fel y'i nodir yn y Brîff Golygyddol a Busnes ac/neu Atodlen 4, neu sydd wedi cytuno fel arall ag adran isdeitlo S4C;

<u>Dylif Ariannol:</u>	y dylif ariannol ar gyfer talu'r Gyllideb fel y'i gosodir yn Atodlen 5;
<u>Elfennau Allweddol:</u>	elfennau allweddol y Rhaglen fel y'i nodir yn rhan 5.5 y Briff Golygyddol a Busnes;
<u>Enillion Net:</u>	<p>Incwm Gros y Rhaglen llai cyfanswm y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) ffioedd, comisiynau a threuliau sy'n daladwy i asiantau a dosbarthwyr mewn perthynas â'r Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen;</li> <li>(ii) costau priodol gwerthu a/neu hyrwyddo'r Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gostau printiau, taflenni, DVD, costau lawns, paneli arddangos, posterï, cludiant a thrafnidiaeth;</li> <li>(iii) unrhyw Daliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau a thaliadau eraill i berfformwyr, cyfranwyr a pherchnogion hawliau yng nghyswllt y Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen a gymeradwywyd gan S4C yn ysgrifenedig o flaen llaw;</li> <li>(iv) costau gwaith technegol a gwaith arall sy'n angenrheidiol o fewn rheswm ar gyfer addasu'r Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen at bwrpas Ymelwa (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i welliannau mewn ansawdd technegol a gwaith golygu a chostau dybio a/neu isdeitlo mewn ieithoedd eraill a chostau fersiynau eraill);</li> <li>(v) lle bo'n ofynnol gan drwyddedai, yswiriant gwallau a hepgoriadau ac adroddiadau ac ymchwiliadau hawlfraint a theitl;</li> <li>(vi) unrhyw drethi cadw'n ôl a thaliadau nas cyflwynir i'r Deyrnas Gyfunol oherwydd cyfyngiadau neu reolau llywodraethau tramor, AR YR AMOD na fydd y symiau hyn yn cael eu hystyried os bydd S4C yn derbyn credyd treth gyfatebol ar gyfer y cyfryw symiau ac yn gallu ei ddefnyddio;</li> <li>(vii) unrhyw arian sydd wedi ei dderbyn neu sydd i gael ei dderbyn gan S4C neu eu hasiantau, aseineion neu eu trwyddedeion sy'n deillio'n benodol o Ymelwa ar y gerddoriaeth neu'r telynegion (neu unrhyw ran o'r telynegion a'r gerddoriaeth) sydd yn y Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen mewn unrhyw ddull neu fodd (boed yn hysbys yn awr neu a ddyfeisir o hyn ymlaen).</li> </ul>
<u>Fformat:</u>	y fformat y mae'r Rhaglen wedi ei seilio arno;

<u>Force Majeure:</u>	Force Majeure fel ag y'i diffinnir yng Nghymal 8.4;
<u>Ffi Gynhyrchu:</u>	y ffi gynhyrchu a nodir yn y Briff Golygyddol a Busnes a/neu Atodlen 2;
<u>Gofynion Cyfleu:</u>	y gofynion yng Nghymalau 3.3 i 3.9;
<u>Gofynion Technegol:</u>	y ddogfen o'r enw "Safonau Technegol Cyfleu Rhaglenni i S4C" y'i cynhwysir ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn: <a href="http://www.s4c.co.uk/production/downloads/c_safonau_technegol_cyfleu_rhaglenni_teledu_s4c.pdf">http://www.s4c.co.uk/production/downloads/c_safonau_technegol_cyfleu_rhaglenni_teledu_s4c.pdf</a> , fel y'i hamrywir neu ei ddiwygir o bryd i'w gilydd fel y mae S4C yn ystyried yn angenrheidiol yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;
<u>Gorwariant:</u>	y gwahaniaeth o faint bynnag lle bo'r Gwir Gostau yn uwch na chyfanswm y Gyllideb;
<u>Gwasanaethau S4C:</u>	unrhyw wasanaeth a ddarperir gan ar ran neu gyda chaniatâd S4C neu unrhyw un o gwmnïau teulu S4C i'r cyhoedd o bryd i'w gilydd i gynnwys ond heb gyfyngiad S4C Digidol, unrhyw sianel sydd yn cario Darllediadau Dilynol, unrhyw wasanaeth manylder uwch, unrhyw wasanaeth lle yr ymarferir yr Hawliau Cyfryngau Newydd, yr Hawliau Ar-Lein a/neu'r Hawliau Gwefan boed y gwasanaethau hynny yn rai llinellol neu ryngweithiol neu wedi eu trosglwyddo gan loeren ddigidol, teledu digidol daearol neu deledu cebl, ar-lein, oddi-ar-y we, diwifr, neu drwy linell teleffon neu gan unrhyw gyflwyniad neu blatfform arall sydd, neu a fydd, yn cael eu dyfeisio o hyn allan i gynnwys teledu safonol neu fanylder uwch (TMU) gwe-ddarllediad (ffrydio cydamserol ac anghydamserol) neu gyfuniad boed yn cael eu derbyn yn y D.U. neu beidio;
<u>Gwe-ddarlledu:</u>	yr hawl i ffrydio neu lifo'r Rhaglen (boed ar yr un pryd ag unrhyw Ddarllediad arall neu beidio) i ddyfeisiau derbyn perthnasol neu i alluogi gwylwyr i wylïo'r Rhaglen ar a thrwy gyfrwng unrhyw systemau sy'n cyfuno elfennau ar-lein a diwifr, boed yn hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn, megis (heb gyfyngiad) systemau sy'n defnyddio llinellau gwifrau neu opteg ffeibrau sy'n cyrraedd y defnyddwyr ar ben y daith trwy pwyntiau cysylltu diwifr, megis WiMax a WiFi;
<u>Gwefan S4C</u>	gwefan swyddogol S4C y'i canfyddir ar url <a href="http://www.s4c.cymru">www.s4c.cymru</a> a/neu unrhyw gyfeiriad gwe ar y rhyngwrwyd sydd wedi ei greu neu ei sefydlu neu ei gymeradwyo gan S4C o dro i dro yn ystod cyfnod y Cytundeb;

Gwir Gostau: gwir gyfanswm costau'r Elfennau Allweddol a'r gwir gostau eraill a delir gan y Cynhyrchydd yn sgil gwneud a Chyfleu'r Rhaglen;

Gwybodaeth Gyfrinachol: unrhyw wybodaeth yn ymwneud â busnes, cyflenwyr neu gwsmeriaid y naill barti neu'r llall a thelerau'r Cytundeb ynghyd ag unrhyw wybodaeth sydd wedi'i dynodi yn wybodaeth gyfrinachol gan y naill barti neu'r llall yn ysgrifenedig neu a ddylid ei hystyried yn gyfrinachol (sut bynnag y'i trosglwyddir neu ar ba gyfrwng bynnag y'i cedwir) gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â materion, eiddo, asedion, arferion masnach, datblygiadau, cyfrinachau masnach, hawliau eiddo deallusol, medrau cyfrin y naill barti a'r llall a'r holl ddata personol a data personol sensitif o fewn ystyr Deddf Gwarchod Data 1998;

Gwybodaeth am y Rhaglen y wybodaeth a bennir yng Nghymal 3.7;

Hawliau Ar-Lein: yr Hawliau Dal-i-Fyny a'r hawliau Gwe-Ddarlledu. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd yr hawliau uchod yn cynnwys hefyd yr hawl i gyflawni'r holl esblygiadau technegol o'r fath ag sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi S4C i fanteisio yn llawn ar yr Hawliau Ar-Lein (er enghraifft, i gopïo, trosglwyddo, celcio, storio ac ail fformatio, ailfeintio ac ail becynnu Cynnwys S4C, y Fformat a'r Deunydd Trydydd Partion) a'r hawl i dorri, golygu, ailfformatio, ailfeintio ac ail-becynnu Cynnwys S4C, y Fformat a'r Deunydd Trydydd Partion ag sy'n angenrheidiol efallai er mwyn addasu i ofynion y dechnoleg a ddefnyddir;

Hawliau Cyfryngau Newydd: yr hawl i S4C (ac unrhyw wasanaeth cyfryngau newydd trydydd parti, porthol neu ddarparwyr cynnwys y gall S4C eu trwyddedu o bryd i'w gilydd) i fanteisio ar Gynnwys S4C, y Fformat a'r Deunydd Trydydd Partion boed hynny ar sail annibynnol, neu fel rhan o unrhyw wasanaeth neu borthol arall, trwy gyfrwng unrhyw gyfrwng ac mewn unrhyw fformat ac ar unrhyw blatfform sy'n hysbys nawr neu wedi hyn ar wahân i ffordd o Ddarlledu neu o ran yr Hawliau Ar-Lein neu'r Hawliau Symudol;

Hawliau Dal-i-Fyny: yr hawl i wneud y Rhaglen ar gael i'r gwylwyr ar eu galwad ar amser o'u dewis heb godi tâl o wefan swyddogol S4C ( www.S4C.cymru neu unrhyw URL a fernir gan S4C o dro i dro) neu ar unrhyw wefan arall a gweithredir gan, ar ran neu o dan drwydded gan S4C ar sail llifo a/neu lawrlwytho dros dro ac i berfformio yr holl esblygiadau technegol o'r fath ag sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi S4C i fanteisio'n llawn ar yr Hawliau Dal-i-Fyny;

Hawliau Gwefan: yr hawl i sefydlu gwefan wedi ei seilio ar y Rhaglen;



<u>Hawliau Symudol:</u>	yr hawl i drosglwyddo Cynnwys S4C, Y Fformat a'r Deunydd Trydydd Partïon i ddyfeisiau symudol trwy gyfrwng unrhyw fath o dechnoleg pwynt i aml-bwynt a ddatblygwyd yn bennaf ar gyfer ei dderbyn gan ddyfeisiau ffôn symudol;
<u>Holiadur Iechyd a Diogelwch:</u>	yr holiadur iechyd a diogelwch gofynnir i'r Cynhyrchydd ei gwblhau yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch S4C a gyhoeddir ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C;
<u>Incwm Gros:</u>	yr holl incwm a dderbynnir i ddwylo S4C o Ymelwa ond ac eithrio treth ar werth a threthi gwerthu tebyg a heb gynnwys yr incwm a ddeillia o Ymelwa ar Wasanaethau S4C a heb gynnwys yr incwm a ddeillia o ymarfer yr hawliau yng Nghymalau 5.9 a/neu 5.17;
<u>Lleiafswm Hawliau:</u>	y lleiafswm hawliau i'w glirio y cyfeirir ato ym Mharagraff A y Cadarnhad Hawliau;
<u>Person Dynodedig:</u>	y person (au) a bennir yng nghymal 6.10 o'r Briff Golygyddol a Busnes at ddibenion amddiffyn plant ac oedolion bregus;
<u>Personél Allweddol:</u>	y personél a nodir yn y Briff Golygyddol a Busnes;
<u>Polisi Amddiffyn Plant S4C:</u>	polisi amddiffyn plant S4C a gyhoeddir ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu unrhyw fersiwn diwygiedig o'r fath bolisi a gyhoeddir gan S4C o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;
<u>Pholisi Dethol ac Archifo TAC:</u>	polisi dethol ac archifo TAC a gyhoeddir ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu unrhyw fersiwn diwygiedig o'r fath bolisi a gyhoeddir gan S4C o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;
<u>Polisi Diogelu Data S4C:</u>	polisi diogelu data S4C ar Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn: fel y'i hamrywir neu ei ddiwygir o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn;
<u>Polisïau Yswiriant:</u>	y polisïau yswiriant a bennir yng Nghymal 2.44;
<u>Rhaglen:</u>	y rhaglen a bennir yn y Briff Golygyddol a Busnes a phob fersiwn ieithyddol ohoni ynghyd ag unrhyw neu'r holl is deitlau ac unrhyw elfennau rhyngweithiol (os o gwbl) sydd yn gysylltiedig â'r fath raglen;
<u>Rheoliadau:</u>	Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd 2004;
<u>S4C Digidol:</u>	y gwasanaeth teledu digidol 'S4C Digidol' a gychwynnodd ddarlledu ar 15fed o Dachwedd 1998;

Taliadau Ailddarlledu  
a Gweddill-daliadau:

y taliadau ail-ddangos, gweddill-daliadau a thaliadau defnyddio a breindaliadau y mae'r Cynhyrchydd wedi hysbysu S4C ohonynt wrth Gyfleu ac sy'n daladwy wrth Ymelwa:-

- (i) yn unol â'r Cytundebau Perthnasau Diwydiannol; neu
- (ii) yn unol â darpariaethau'r Cytundeb hwn, i berchnogion neu reolwyr y Deunydd Trydydd Partion neu i unrhyw gyfranwyr i'r Rhaglen;

Tanwariant:

mewn perthynas â'r Rhaglen, y gweddill (os o gwbl) sydd ar ôl os yw cyfanswm y Gwir Gostau fel y'i profir gan y datganiad o'r gost derfynol neu'r archwiliad manwl o'r datganiad o'r gost derfynol y cyfeirir ato yng Nghymal 4.17 yn llai na chyfanswm y Gyllideb;

Tiriogaeth:

y Deyrnas Gyfunol ac unrhyw diriogaeth ble y gall Gwasanaethau S4C gael eu derbyn ledled dalgylch lloeren Astra 2F neu'r cyfryw loeren(nau) eraill a ddefnyddir i drosglwyddo Gwasanaethau S4C heb ei encryptio o bryd i'w gilydd ac yn achos yr Hawliau Ar-Lein, Hawliau Symudol a'r Hawliau Cyfryngau Newydd, bydd y Diriogaeth yn fyd-eang;

Toriadau Hysbysebu:

y toriadau hysbysebu a nodir yn y Briff Golygyddol a Busnes a/neu'r ddogfen 'Union Hyd Rhaglenni' a gyhoeddir ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu unrhyw fersiwn diwygiedig o'r ddogfen a gyhoeddir gan S4C o bryd i'w gilydd, neu fel y'i gytunir fel arall yn ysgrifenedig rhwng S4C a'r Cynhyrchydd;

Twyll:

unrhyw drosedd o dan gyfraith sy'n creu troseddau mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus neu o dan gyfraith gwlad mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus yn ymwneud a'r Cytundeb hwn neu dwyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo, S4C;

Ymelwa:

unrhyw werthiant, hurio, dosbarthu, dangosiad, defnydd neu ymelwa gan S4C yn unol â Chymal 5.13 neu gan olynwyr, aseineion a/neu drwyddedeion S4C ar y Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen ym mhob iaith ac mewn unrhyw a phob gwlad a thiriogaeth yn y Byd heb gyfyngiad o ran amser mewn unrhyw gyfrwng drwy unrhyw ddull a modd boed yn ddigidol, llinol neu ryngweithiol, ar linell neu oddi ar linell, yn weledol, mewn sain neu yn glyweledol neu fel arall boed yn hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir yn y dyfodol gan gynnwys heb gyfyngiad mewn neu drwy gyfrwng:

darllediadau ar wasanaethau rhaglenni cebl, ar y rhyngwrwyd neu'r we (gweler isod) a phob math arall o deledu a radio boed am ddim neu am dâl (gan gynnwys fideo ar gais a phob math arall o system gyfleu neu ddarlledu) gan gynnwys (er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ond heb gyfyngiad) darlledu ar unrhyw Wasanaeth S4C a/neu unrhyw wasanaeth arall a sefydlir gan S4C neu unrhyw is-gwmni o S4C boed ar ben ei hun neu ar y cyd â phobl eraill;

defnydd ar y rhyngwrwyd (fel y deallir y gair hwnnw yn gyffredinol) gan gynnwys ond heb gyfyngiad yr hawl ecsgliwsif ac unigryw i sefydlu gwefan neu wefannau ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r Rhaglen ac i ddefnyddio clipiau neu ddarnau o'r Rhaglen ar unrhyw wefan sy'n atodol i'r Rhaglen a'r hawl i weddarlledu ('webcast') y Rhaglen (sef yr hawl i arddangos y Rhaglen ar y rhyngwrwyd neu'r we mewn fformat llinol heb dorri neu darfu ar rediad gwreiddiol neu ddilyniant y Rhaglen) a boed ar yr un pryd yn union ag unrhyw ddarllediad o'r Rhaglen ai peidio;

disgiau optegol, electroneg a magnetig a phob system gyfrifiadurol a/neu gonsol arall;

ymarfer yr hawliau a ddisgrifir yn y Cadarnhad Hawliau;

arddangosiadau mewn unrhyw wyl deledu/ffilmiau;

dibenion archifol neu addysgiadol gan gynnwys ond heb gyfyngiad yr hawl i ganiatâu'r Educational Recording Agency Limited i drwyddedu sefydliadau addysgiadol i ddefnyddio'r Rhaglen at ddibenion addysgiadol yn unol â'r Ddeddf neu fel arall;

ymelwa ar yr hawliau cyhoeddi yn y gerddoriaeth yn achos y gerddoriaeth a gomisiynwyd yn benodol ar gyfer y Rhaglen;

pob math o gyhoeddi a marsiandïaeth;

ymelwa trwy gyfrwng fideos, disgiau fideo, disgiau amryddawn digidol a dyfeisiau eraill;

ymelwa ar yr hawliau y cyfeirir atynt yng Nghymal 5.4 a/neu 5.9;

#### Ymrwymiad Amrywiaeth S4C:

yr ymrwymiad amrywiaeth sydd wedi ei gyhoeddi ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C ar ddiwrnod y Cytundeb hwn neu unrhyw fersiwn arall o'r ddogfen sydd wedi ei chyhoeddi gan S4C yn ystod cyfnod y Cytundeb.

- 1.2 Dehonglir unrhyw gyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol, i gynnwys cyfeiriad at y statud hwnnw neu'r ddarpariaeth statudol honno fel y'i hamrywir, newidir, estynnir neu'i ail-weithredir boed cyn neu wedi dyddiad y Cytundeb hwn, ac at bob offeryn statudol gorchymyn a rheoliad sy'n amrywio, newid a/neu'n ymestyn y fath statud neu ddarpariaeth statudol.
- 1.3 Bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir oni fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Yn yr un modd, bydd geiriau sy'n dynodi'r naill ryw yn cynnwys y llall hefyd a geiriau sy'n dynodi personau'n cynnwys corfforaethau, cymdeithasau anghorfforedig a phartneriaethau.
- 1.4 Golyga'r gair "hawlfraint" yr holl hawlfraint, yr hawl bâs data a'r hawliau dyluniad sy'n bodoli dan ddeddfau y Deyrnas Unedig, a'r holl hawliau tebyg dan ddeddfau pob deddfwriaeth ledled y Byd.
- 1.5 Bydd yr ymadrodd "y Rhaglen" yn cynnwys pob pennod unigol o'r Rhaglen ac unrhyw a phob recordiad sain a gynhwysir yn nhrac sain y Rhaglen a phob detholiad o recordiadau sain a/neu raglenni eraill a gynhwysir yn y Rhaglen.
- 1.6 Oni nodir fel arall, bydd amser yn hanfod o ran gweithredu ymrwymadau'r Cynhyrhydd dan y Cytundeb hwn. Oni nodir fel arall, bydd amser yn hanfod o ran cyflawni ymrwymadau talu S4C AR YR AMOD na fydd y ddarpariaeth hon yn weithredol o ran unrhyw symiau y mae S4C yn dal yn ôl yn unol â thelerau eraill y Cytundeb hwn AC AR YR AMOD HEFYD y bydd y Cynhyrhydd yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig o unrhyw dorri ar ymrwymadau talu S4C o dan y Cytundeb hwn ac y bydd gan S4C saith (7) Niwrnod Gwaith o dderbyn y fath rybudd i gywiro'r tor-ymrwymiad.
- 1.7 Pwrpas penawdau Cymalau'r Cytundeb hwn yw rhoi arweiniad yn unig, ac ni fwriedir iddynt gyfyngu ar eiriad unrhyw gymal mewn unrhyw ffordd.
- 1.8 Ymgorfforir Canllawiau Cydymffurfiaeth S4C trwy gyfeiriadaeth yn y Cytundeb hwn. Os cyfyd unrhyw wrthdaro rhwng y Cytundeb hwn a Chanllawiau Cydymffurfiaeth S4C, yna'r Cytundeb hwn fydd yn rhagori.
- 1.9 Pan fo'r Cynhyrhydd yn fwy nag un person neu endid cyfreithiol, yna bydd pob un o'r personau a'r endidau hynny yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyflawni a chydymffurfio ag oblygiadau gwarantau ac ymrwymadau'r Cynhyrhydd dan y Cytundeb hwn.

## **Adran 2 - Cynhyrchu'r Rhaglen**

### Manylion y Rhaglen

- 2.1 Mae'r Cynhyrhydd yn gwarantu yn ymrwymo ac yn cytuno i wneud a chynhyrchu'r Rhaglen yn unol â'r Brîff Golygyddol a Busnes, y Cerrig Milltir a'r Cytundeb hwn (gan gynnwys, heb gyfyngiad yr Amodau Arbennig) ac i Gyfleu'r Rhaglen i S4C ar neu cyn y Dyddiad Cyfleu.
- 2.2 Os ar ddyddiad arwyddo'r Cytundeb hwn y bydd rhai o'r manylion yn y Brîff Golygyddol a Busnes heb eu nodi, neu eto i'w cytuno, yna bydd y Cynhyrhydd yn sicrhau cytundeb ysgrifenedig S4C iddynt a bydd sicrhau cytundeb ysgrifenedig S4C yn rhag-amod i'r rheiny o ymrwymadau talu S4C o dan y Cytundeb hwn sydd heb eu cyflawni o bryd i'w gilydd. Bydd

S4C yn ymateb i gais am gytundeb S4C o dan y Cymal hwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

- 2.3 Oni chytunir yn ysgrifenedig i'r gwrthwyneb gan y partïon, ni fydd y Rhaglen yn hwy nac yn fyrrach na'r hyn a nodir yn y Brîff Golygyddol a Busnes. Os bydd slot o hyd arbennig a/neu gynulleidfa darged wedi ei nodi, yna gwneir a chynhyrchir y Rhaglen i fod yn addas i'w darlledu o fewn slot o'r fath ac ar gyfer y gynulleidfa darged. Mae'r partïon yn cydnabod y gall natur a chynnwys y Rhaglen gael eu hamrywio a'u newid yn ystod tymor y Cytundeb hwn fel y cytunir yn sgil deialog barhaus rhwng y Cynhyrchydd ag S4C. Gwneir y Rhaglen yn yr iaith a bennir yn y Brîff Golygyddol a Busnes a bydd yn cynnwys y Toriadau Hysbysebu. Ni fydd y Rhaglen yn cynnwys gosod cynnyrch ("product placement") heb fod wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw na hysbysebu uniongyrchol neu anuniongyrchol ac eithrio'r Toriadau Hysbysebu. Nid yw'r Cymal hwn yn gwahardd unrhyw drefniadau nawdd neu osod cynnyrch a gytunwyd yn unol â Chanllawiau Nawdd S4C, Canllawiau S4C ar Osod Cynnyrch a Chymal 2.19.2 nac unrhyw drefniadau rhyngweithiol (os o gwbl) ag a gymeradwyd o flaen llaw ac yn benodol gan S4C.
- 2.4 Y mae'n rhag-amod i ddyletswyddau talu a dyletswyddau eraill S4C o dan y Cytundeb hwn y bydd y Cynhyrchydd cyn neu erbyn y Dyddiad Cyfleu neu unrhyw ddyddiad arall perthnasol yn y Brîff Golygyddol a Busnes naill ai:

2.4.1 yn sicrhau bod cynhyrchydd unigol a chyfarwyddwr unigol y Rhaglen yn paratoi ac yn trosglwyddo llythyrau cymell i S4C, mewn ffurf a gymeradwyir gan S4C; neu

2.4.2 yn cytundebu pob cynhyrchydd unigol a chyfarwyddwr unigol y Rhaglen naill ai yn unol â'r fath gytundeb safonol ar gyfer aelodau o staff y Cynhyrchydd ag a gymeradwyir gan S4C neu'r fath gytundeb neu gytundebau safonol ar gyfer cynhyrchwyr neu gyfarwyddwyr llawrydd ag a gymeradwyir gan S4C

ac mae'r Cynhyrchydd yn ymrwmo ag S4C y bydd pob cynhyrchydd a phob cyfarwyddwr nad sydd wedi arwyddo a darparu llythyr cymell i S4C wedi eu cytundebu ar sail un o'r cytundebau safonol a gymeradwyir gan S4C ac ni fydd y Cynhyrchydd yn cytuno i unrhyw amrywiadau i'r fath gytundebau safonol heb ganiatâd S4C o flaen llaw.

#### Rheolaeth Olygyddol

- 2.5 Cyfrifoldeb y Cynhyrchydd a'r Cynhyrchydd yn unig fydd cynhyrchu a Chyfleu y Rhaglen yn unol â'r Cytundeb hwn, ond S4C fydd â'r rheolaeth olygyddol yn y pen draw, cyn belled â bod barn y Cynhyrchydd wedi cael ei hystyried yn deg. Gwneir pob penderfyniad creadigol o bwys sy'n berthnasol i gynhyrchiad y Rhaglen gan y Cynhyrchydd ac S4C ar y cyd, ond os bydd unrhyw anghydfod, bydd penderfyniad S4C yn derfynol ac yn rhwymo'r Cynhyrchydd. Bydd y Cynhyrchydd yn cydymffurfio â gofynion S4C fel y'u heglurwyd i'r Cynhyrchydd gan y Comisiynydd.

- 2.6 Bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau bod y Comisiynydd yn gwbl gyfarwydd â'r ffordd y mae'r gwaith o gyflawni pob prif gymal sydd i'w gymeradwyo o dan ran 4.10 y Brîff Golygyddol a Busnes yn mynd rhagddo, a bydd yn hysbysu'r Comisiynydd ac yn sicrhau bod y Comisiynydd yn hollol

gyfarwydd ag unrhyw ddigwyddiad neu fater y mae'r Cynhyrchydd yn gwybod neu y dylai'r Cynhyrchydd sylweddoli y gallai effeithio ar allu'r Cynhyrchydd i gyflawni ei oblygiadau o dan y Cytundeb hwn. Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, ac fel rhagamod i'r rheiny o oblygiadau talu S4C sydd o bryd i'w gilydd heb eu cyflawni, bydd y Cynhyrchydd yn cyflwyno i'r Comisiynydd erbyn y dyddiad perthnasol (os o gwbl) a nodir yn rhan 4.10 y Briff Golygyddol a Busnes ac yn sicrhau cymeradwyaeth y Comisiynydd i bob mater a restrir yn rhan 4.10 y Briff Golygyddol a Busnes ymhob achos cyn symud ymlaen i'r cymal cynhyrchu nesaf. Ni fydd y Cynhyrchydd heb ganiatâd ysgrifenedig S4C yn gwneud unrhyw newidiadau i ddeunydd a gymeradwywyd eisoes ac eithrio, yn achos sgriptiau a gymeradwywyd, mân newidiadau i gwrdd â gofynion y cynhyrchiad 'ar lawr y stiwdio'. Bydd methu â chydymffurfio â'r Cymal hwn yn dor-amod sylfaenol o'r Cytundeb hwn.

- 2.7 Lle nad yw'r Comisiynydd yn cynnig unrhyw sylwadau ar unrhyw eitem a restrir yn rhan 4.10 o'r Briff Golygyddol a Busnes o fewn y cyfnod a nodwyd yn ei erbyn, yna bernir bod y Comisiynydd wedi cymeradwyo'r eitem honno, cyn belled â bod y Cynhyrchydd wedi cyfleu'r eitem honno i'r Comisiynydd erbyn y dyddiad perthnasol (os o gwbl) a nodir yn rhan 4.10 y Briff Golygyddol a Busnes ac, os nad oes dyddiad o'r fath wedi ei nodi, cyn belled â bod y Cynhyrchydd wedi cyfleu'r eitem i'r Comisiynydd o fewn amser rhesymol (yng nghyswllt yr Amserlen Gynhyrchu yn ei chyfanrwydd) er mwyn galluogi'r Comisiynydd i roi ystyriaeth resymol i'r fath eitem.
- 2.8 Ar unrhyw gymal yng nghyfnod cynhyrchu'r Rhaglen, bydd gan y Comisiynydd yr hawl yn syth yn dilyn cais o'r fath i weld ac i gymeradwyo elfennau eraill neu gymalau eraill o'r cynhyrchiad ac yn y fath amgylchiadau bydd y Comisiynydd yn cynnig sylwadau arnynt cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac ni fydd y Cynhyrchydd yn symud ymlaen i'r cymal cynhyrchu nesaf hyd nes y bydd y gymeradwyaeth wedi ei rhoi.
- 2.9 Bydd y Cynhyrchydd yn caniatáu i gynrychiolwyr awdurdodedig S4C i fod yn bresennol ar unrhyw adeg yn ystod unrhyw ran o wneuthuriad y Rhaglen.
- 2.10 Wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig rhesymol i'r Cynhyrchydd, gall S4C ofyn i'r Cynhyrchydd sicrhau bod ei gynrychiolwyr yn mynychu swyddfeydd S4C (neu unrhyw le arall a enwir gan S4C yn y rhybudd), er mwyn trafod unrhyw agwedd ar wneuthuriad y Rhaglen. Bydd y Cynhyrchydd yn defnyddio ei ymdrechion rhesymol i gydymffurfio â chais S4C i sicrhau bod unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â gwneuthuriad y Rhaglen yn mynychu'r fath gyfarfod.
- 2.11 Bydd y Cynhyrchydd yn gwneud unrhyw newidiadau golygyddol i'r Rhaglen y bydd S4C yn gofyn amdanynt. Os, o ganlyniad uniongyrchol i unrhyw newidiadau golygyddol o'r fath, bydd y Gwir Gostau yn uwch na'r Gyllideb, yna fe'u trinnir fel a ganlyn:-

2.11.1 os yw'r costau uwch yn deillio'n sylweddol oherwydd:

- (a) bod y Cynhyrchydd heb awdurdod S4C wedi crwydro oddi wrth unrhyw ran o'r Briff Golygyddol a Busnes neu Ganllawiau Cydymffurfiaeth S4C; neu
- (b) nad yw'r Cynhyrchydd wedi sicrhau unrhyw ganiatâd sy'n ofynnol ei gael yn ôl y Cytundeb hwn; neu

- (c) nad yw'r Cynhyrchydd wedi cynhyrchu'r Rhaglen i'r safon dechnegol sy'n ofynnol yn ôl y Cytundeb hwn; neu
- (d) esgeulustod neu ddiolfalwch y Cynhyrchydd; neu
- (e) ryw dorri neu ddiffyg cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn ar ran y Cynhyrchydd

yna bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu S4C ohonynt yn unol â Chymal 4.23 a thrinnir y fath gostau ychwanegol yn unol â Chymalau 4.24 i 4.26 yn gynnwysedig.

2.11.2 os nad yw'r costau uwch yn deillio o un o'r digwyddiadau a restrir yng Nghymal 2.11.1 telir y costau ychwanegol (i'r fath raddau ag y bônt yn deillio'n uniongyrchol o newidiadau golygyddol S4C ac nad ydynt yn medru cael eu hamsugno i'r Gyllideb) gan S4C ar yr amod bod y Cynhyrchydd, ar yr adeg y gofynnodd S4C am y newidiadau, wedi hysbysu S4C y byddai newidiadau o'r fath yn arwain at gostau uwch neu y gallai wneud hynny, er mwyn i S4C gael ail-ystyried a oedd dal eisiau'r newidiadau hyn. Bydd y fath rybudd yn ysgrifenedig ac wedi ei gyfeirio at adran Materion Busnes S4C gyda chopi i'r Comisiynydd, ac yn nodi:

- (a) cyfanswm y costau uwch tebygol a ni fydd y Cynhyrchydd yn dioddef y fath gostau uwch heb ganiatâd ysgrifenedig adran Materion Busnes S4C; ac
- (b) i ba raddau (os o gwbl) y gall y gorwariant gael ei amsugno i'r Gyllideb ym marn y Cynhyrchydd.

Os nad yw'r Cynhyrchydd yn cydymffurfio â'r Cymal 2.11.2 hwn, yna ystyrir y costau uwch hyn fel gorwariant ac fe'u trinnir yn unol â Chymalau 4.23 i 4.26 yn gynnwysedig.

2.12 Lle bo S4C wedi gofyn am newidiadau golygyddol ac nid yw'r fath newidiadau'n angenrheidiol o ganlyniad i unrhyw un o'r amgylchiadau a ragwelir yng Nghymal 2.11.1, yna os yw cyflawni'r fath newidiadau yn mynd i arwain at oedi o ran Cyfleu'r Rhaglen, bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu S4C o hyn yn syth gan roi manylion llawn o'r oedi tebygol er mwyn i S4C fedru ail-ystyried a yw'n dymuno mynnu'r fath newidiadau. Mewn amgylchiadau lle bo S4C yn dal i fynnu'r fath newidiadau, ni fydd y Cynhyrchydd yn atebol am unrhyw oedi o ran Cyfleu i'r fath raddau ag y bo'r fath oedi wedi ei nodi yn y rybudd ysgrifenedig y cyfeirir ato uchod.

#### Labordai Ffilm a Thai Cyfleusterau / Ôl-gynhyrchu

2.13 Lle bo'r Rhaglen yn cael ei recordio ar ffilm, bydd y Cynhyrchydd yn cael caniatâd S4C parthed y labordy ffilm a ddefnyddir (ni fydd S4C yn gwrthod y fath ganiatâd yn afresymol).

2.14 Bydd y Cynhyrchydd yn cyfleu i'r labordy a gymeradwywyd yr holl ddeunydd ffilm a sain negatif, ac ni fydd yn defnyddio'r un labordy arall heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig S4C (ni fydd S4C yn gwrthod rhoi'r fath ganiatâd yn afresymol). Bernir bod S4C wedi cymeradwyo'r labordy arfaethedig os nad yw S4C wedi ymateb o fewn saith (7) Niwrnod Gwaith i dderbyn cais ysgrifenedig yn gwahodd S4C i gymeradwyo'r dewis.

#### Hawliau Gwaelodol

- 2.15 Y mae'n rhagamod i ddyletswyddau talu a dyletswyddau eraill S4C o dan y Cytundeb hwn y bydd y Cynhyrchydd mewn perthynas â'r Rhaglen yn sicrhau i S4C erbyn y dyddiad neu'r dyddiadau ag a nodir ym Mharagraff C y Cadarnhad Hawliau pob hawl, trwydded, cliriad, ildiad, caniatâd a rhyddhad angenrheidiol ar gyfer Ymelwa ar y Lleiafswm Hawliau yn rhydd o bob cyfyngiad a llyffethair ac y bydd yn defnyddio ei holl ymdrechion rhesymol i sicrhau'r holl hawliau, trwyddedau, cliriadau, ilduadau, caniatâd a rhyddhad mewn perthynas â phob modd arall o Ymelwa ar y Rhaglen ymhob achos yn rhydd o bob cyfyngiad a llyffethair ac y bydd yr holl hawliau, trwyddedau, cliriadau ac ilduadau hynny a phob caniatâd a rhyddhad yn ysgrifenedig mewn perthynas â'r holl ddeunydd a ddefnyddir yng ngwneuthuriad y Rhaglen a/neu'r Deunydd y Rhaglen gysylltiedig. Bydd y Cynhyrchydd yn darparu copïau o unrhyw gytundebau o'r fath i S4C yn syth os bydd S4C yn gofyn am hynny.
- 2.16 Bydd unrhyw gytundeb ar gyfer cerddoriaeth wreiddiol mewn ffurf a gymeradwywyd gan S4C a bydd yn sicrhau i S4C yr holl hawliau Ymelwa (gan gynnwys ond heb gyfyngiad yr hawlfraint a'r hawliau cyhoeddi yn y gerddoriaeth).
- 2.17 Pan fo'r Cynhyrchydd am gynnwys cerddoriaeth yn y Rhaglen, ni fydd y Cynhyrchydd yn comisiynu cerddoriaeth wreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaenllaw ac ni fydd S4C yn atebol i dalu mwy na ffi syncroneiddio ar gyfraddau lleiafswm S4C parthed cerddoriaeth gomisiwn oni bai bod S4C yn cymeradwyo'r cytundeb o flaenllaw ac yn derbyn copi o'r cytundeb wedi ei arwyddo gan y cyfansoddwr cyn i'r cyfansoddwr ddechrau ar y gwaith.
- 2.18 Pan fydd y Cynhyrchydd yn cytundebu â chyflwynwyr, cantorion, sylwebyddion, gwesteion, arbenigwyr, cerddorion, corau, perfformwyr eraill, awdur unrhyw sgrïpt neu amlinelliad stori ("screenplay"), unrhyw gyfarwyddwr, cynhyrchydd neu ddylunydd llawrydd, neu unrhyw gyfrannwr arall neu reolwr unrhyw ddeunydd mewn hawlfraint a gynhwysir yn y Rhaglen a/neu unrhyw Ddeunydd y Rhaglen, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau bod y cytundebau hynny'n sicrhau'r holl hawliau ar gyfer Ymelwa ar y Lleiafswm Hawliau ac ymhob achos yn defnyddio ei ymdrechion gorau i sicrhau'r holl hawliau mewn perthynas â phob modd arall o Ymelwa ar y Rhaglen.
- 2.19 Bydd gan S4C yr hawl yn syth wedi gwneud cais i gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw a phob dogfen a chytundeb ac i dderbyn copïau o unrhyw a phob cytundeb sydd wedi ei arwyddo sy'n ymwneud â'r Rhaglen. Bydd S4C yn rhoi rhybudd digonol o flaen llaw o unrhyw gytundeb y mae'n dymuno cymeradwyo o flaen llaw. Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, ni fydd y Cynhyrchydd yn cwblhau unrhyw un o'r canlynol heb gael caniatâd ysgrifenedig S4C i'w delerau:
- 2.19.1 unrhyw gytundeb ag unrhyw berson sy'n ceisio rhoi cyfran i'r person hwnnw o incwm marchnata, marsiandïaeth neu unrhyw incwm arall o'r Rhaglen (ac eithrio rhan o gyfran y Cynhyrchydd o'r Enillion Net) neu sy'n ceisio rhoi i'r person hwnnw'r hawl i gymeradwyo neu wahardd unrhyw fath o Ymelwa;
- 2.19.2 unrhyw gytundeb sy'n ymwneud â gosod cynnyrch neu ddarparu unrhyw fath o nawdd mewn perthynas â'r Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen (**bydd pob gosod cynnyrch a nawdd beth**



## **bynag yn ddarostyngedig i Ganllawiau S4C ar Osod Cynnyrch a Chanllawiau Nawdd S4C yn ôl eu trefn).**

Lle nad yw S4C yn cynnig unrhyw sylwadau ar unrhyw gytundeb a gyflwynwyd i S4C i'w gymeradwyo ar gais ysgrifenedig penodol S4C o fewn saith (7) Niwrnod Gwaith o dderbyn y cytundeb gan S4C, yna bernir bod S4C wedi ei gymeradwyo.

- 2.20 Unwaith y bydd y Cynhyrchydd wedi derbyn cymeradwyaeth S4C i unrhyw gytundeb mewn perthynas â'r Rhaglen, ni fydd wedyn yn newid neu'n amrywio'r fath gytundeb heb gymeradwyaeth bellach gan S4C. Ni ystyrir unrhyw gymeradwyaeth gan S4C neu ymwneud gan S4C â pharatoi unrhyw gytundeb neu archwilio'r hawliau gwaelodol neu gynnwys y Rhaglen ar ran S4C fel ildiad gan S4C o unrhyw dorri neu ddiffyg cydymffurfio gan y Cynhyrchydd â'i ymrwymadau dan ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, onibai (yn achos cytundeb) bod adran Gyfreithiol S4C wedi gwneud cais ysgrifenedig penodol i gymeradwyo'r cyfryw gytundeb a'i bod wedi cadarnhau yn ysgrifenedig yn hwyrach ei bod yn cymeradwyo'r cytundeb (ac ni fernir bod S4C wedi ildio nac yn ymwybodol o unrhyw dorri amod neu ddiffyg cyflawni mewn sefyllfa lle y bernir bod S4C wedi cymeradwyo cytundeb oherwydd methiant S4C i ymateb o fewn y cyfnod penodol). Ni ddylai'r Cynhyrchydd ystyried unrhyw gymeradwyaeth neu ymwneud gan S4C â pharatoi unrhyw gytundeb neu archwilio'r hawliau gwaelodol fel rhywbeth sy'n esgusodi'r Cynhyrchydd rhag cymryd cyngor cyfreithiol annibynnol.
- 2.21 Ni fydd unrhyw gytundeb mewn perthynas â'r Rhaglen yn cynnwys darpariaethau a fydd yn cyfyngu ar yr hawl i'w aseinio'n ddidramgwydd i S4C neu i unrhyw gwmni y gall S4C ei benodi i gymryd drosodd a chwblhau cynhyrchu'r Rhaglen, oni bai bod hynny wedi ei gadarnhau mewn ysgrifen o flaen llaw gan S4C. Bydd y Cynhyrchydd, os gofynnir iddo wneud hynny, yn gweithredu aseiniadau ffurfiol o unrhyw neu bob cytundeb o'r fath yn ddi-oed i S4C neu'r cyfryw gwmni arall a, chyn belled â bod y fath gytundebau yn cydymffurfio ymhob ffordd â gofynion y Cytundeb hwn, bydd S4C yn indemnio'r Cynhyrchydd yn erbyn unrhyw golled a ddioddefir neu sy'n codi o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i unrhyw dorri ar amodau'r fath gytundebau gan S4C.
- 2.22 Yn ddi-oed ar dderbyn cais S4C ar unrhyw adeg, bydd y Cynhyrchydd yn darparu i S4C y fath ddogfennau neu gadarnhad ag a fyddir gan S4C at ddibenion clirio hawliau, yswiriant namau a hepgoriadau neu gofrestru hawlfraint.

### Trac Cerddoriaeth ac Effeithiau

- 2.23 Os bydd y Briff Golygyddol a Busnes yn gofyn am hynny neu os bydd S4C yn gofyn amdano yn hwyrach, bydd y Cynhyrchydd yn darparu trac cerddoriaeth ac effeithiau ar gyfer y Rhaglen. Ysgwyddir y gost (a gytunir o flaen llaw) gan y Cynhyrchydd os gellir ei lynu o fewn y Gyllideb ond fel arall gan S4C.

### Hysbysiadau Hawlfraint

- 2.24 Bydd yr hysbysiad hawlfraint ganlynol yn ymddangos ar ddiwedd y Rhaglen:

Cymraeg : Hawlfraint © S4C [dyddiad y cynhyrchiad ](Rhifau Rhufeinig) Cedwir pob hawl  
Saesneg : Copyright © S4C [ dyddiad y cynhyrchiad] (Rhifau Rhufeinig) All rights reserved

### Cydnabyddiaethau Sgrîn

- 2.25 Onibai bo'r Brîff Golygyddol a Busnes yn nodi i'r gwrthwyneb, bydd gan y Cynhyrchydd yr hawl i dderbyn cydnabyddiaeth resymol o amlwg ar ddiwedd y Rhaglen yn y ffurf a bennir yng Nghanllawiau Cydnabyddiaeth S4C. Ni fydd y Cynhyrchydd yn ymgorffori ei enw na'i logo ar ddechrau'r Rhaglen nac unrhyw gyfeiriad at unrhyw wefan ar ddechrau neu ar ddiwedd y Rhaglen heb ganiatâd ysgrifenedig S4C. Bydd gan S4C yr hawl i ofyn i'r Cynhyrchydd i arddangos cyfeiriad unrhyw wefan sy'n berthnasol i'r Rhaglen neu i orosod cydnabyddiaeth o'r fath ar ddiwedd y Rhaglen.
- 2.26 Rhoddir cydnabyddiaeth i S4C yn unol â Chanllawiau Cydnabyddiaeth S4C. Ceidw S4C yr hawl i orosod ei chydabyddiaeth gyflwyno a/neu ei logo ar ddechrau'r Rhaglen. Ceidw S4C yr hawl i symud unrhyw a phob cydnabyddiaeth neu i olygu'r cydnabyddiaethau neu i gynhyrchu ei chydabyddiaethau ei hun os torrir Canllawiau Cydnabyddiaeth S4C neu i ateb gofynion gweithredol S4C. Ni fydd S4C yn ymarfer yr hawl hon lle bo S4C wedi cymeradwyo unrhyw ymrwymiad cytundebol o ran cydnabyddiaeth o dan Gymal 2.29. Os bydd angen newid o'r fath o ganlyniad i fethiant gan y Cynhyrchydd i gydymffurfio â Chanllawiau Cydnabyddiaeth S4C, bydd gan S4C yr hawl i fynnu bod y Cynhyrchydd yn ad-dalu cost newidiadau o'r fath (a bydd y Cynhyrchydd yn gwneud hynny'n ddi-oed) neu fel arall i dynnu'r fath gostau o unrhyw arian arall sy'n ddyledus gan S4C i'r Cynhyrchydd dan y Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall.
- 2.27 Bydd hawliau'r Cynhyrchydd a thrydydd partiön sy'n codi o achos a brofir o dorri ar unrhyw rwymedigaethau cytundebol gan S4C neu ei thrwyddedeion mewn perthynas â chydabyddiaethau yn gyfyngedig i'r hawl i iawndal ac ni fydd yn ymestyn i'r hawl i geisio am waharddeb llys.
- 2.28 Bydd gan y Comisiynydd yr hawl i ofyn am gopi o'r rhestr gydnabyddiaethau y bwriedir ei chynnwys yn y Rhaglen i'w chymeradwyo o ran ffurf ac iaith. Lle bo'r Comisiynydd yn gofyn am gopi ohoni, bydd S4C yn cynnig sylwadau ar y rhestr o fewn y cyfnod a bennir yn y Brîff Golygyddol a Busnes neu unrhyw gyfnod arall fel y'i gytunir rhwng S4C a'r Cynhyrchydd ac, os yw S4C yn methu â gwneud hynny, bennir bod S4C wedi ei chymeradwyo. Rhaid i'r holl gydnabyddiaethau gydymffurfio â Chanllawiau Cydnabyddiaeth S4C ym mhob ffordd gan gynnwys ond heb gyfyngiad eu lleoliad amlygrwydd hyd gyflymdra a ffurf.
- 2.29 Ni fydd y Cynhyrchydd yn ymrwmo'n gytundebol ag unrhyw drydydd parti mewn perthynas â'r rhestr gydnabyddiaethau ar gyfer y Rhaglen heb gael caniatâd ysgrifenedig S4C yn gyntaf. Cyfeirir ceisiadau am ganiatâd o dan y Cymal hwn i'r Comisiynydd gyda chopi i adran Gyfreithiol S4C. Bydd y Comisiynydd yn cynnig sylwadau ar unrhyw gais o fewn saith (7) Niwrnod Gwaith ac, os yw'n methu â gwneud hynny, bennir bod S4C wedi ei chymeradwyo.

### Hyrwyddo a Chyflwyno

- 2.30 Hyrwyddir a chyflwynir y Rhaglen yn ôl disgrisiwn adran Gyfathrebu S4C. Yn benodol ond heb gyfyngiad, oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig rhwng S4C a'r Cynhyrchydd, S4C (o ran S4C a'r Cynhyrchydd yn unig) fydd â'r unig hawl i greu, sefydlu neu gynnal gwefan neu wefannau atodol i'r Rhaglen neu/at ddibenion ei hyrwyddo. Bydd y Cynhyrchydd yn cysylltu â swyddogion cyfathrebu S4C cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (ond ddim hwyrach na dechrau'r cyfnod cynhyrchu) er mwyn trafod hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Rhaglen, ac ni fydd y Cynhyrchydd yn hyrwyddo na hysbysebu'r Rhaglen heb ganiatâd ysgrifenedig adran Gyfathrebu S4C. Bydd y Cynhyrchydd yn darparu'n ddi-oed ar gais S4C bob cymorth a deunydd sydd eu hangen ar S4C mewn cysylltiad ag unrhyw ymgyrchoedd hyrwyddo a hysbysebu.
- 2.31 Bydd y Cynhyrchydd (erbyn y Dyddiad Cyfleu ac fel rhan o'r adran gyfleu tâp yn y ffurflen 'Rhaglen Wedi'i Chwblhau' neu cyn hynny ar gais swyddogion cyfathrebu S4C) yn darparu i S4C y deunyddiau canlynol ar gyfer y Rhaglen:
- 2.31.1 crynodeb (oddeutu 100 o eiriau) yn y Gymraeg ynghyd â chrynodeb (oddeutu 100 o eiriau) yn y Saesneg;
- 2.31.2 rhestriad (oddeutu 50 o eiriau) yn y Gymraeg ynghyd â rhestriad (oddeutu 50 o eiriau) yn y Saesneg a'r cydnabyddiaethau perthnasol; ac
- 2.31.3 unrhyw ddeunydd ffotograffig y mae S4C yn gofyn amdano ac yn talu amdano.
- 2.32 Bydd gan S4C yr hawl i drefnu bod ffotograffydd (a enwebir ac a delir amdano gan S4C ac sy'n gweithio i frîff a bennir gan S4C) yn bresennol i gymryd lluniau at ddibenion hyrwyddo a chyhoeddusrwydd a lle bo'n berthnasol i saethu deunydd hyrwyddo ar gyfer rhagluniau ar-y-sgrin.
- 2.33 Mewn perthynas â'r Rhaglen, bydd y Cynhyrchydd yn caniatáu digon o amser yn yr Amserlen Gynhyrchu er mwyn i ffotograffydd (a enwebir ac y telir amdano gan S4C ac sy'n gweithio yn unol â brîff a bennir gan S4C) fod yn bresennol i dynnu lluniau ffotograffig at ddibenion cyhoeddusrwydd a hyrwyddo a lle bo hynny'n berthnasol i saethu deunydd hyrwyddo ar gyfer rhagluniau ar-y-sgrin.
- 2.34 Bydd y Cynhyrchydd yn defnyddio'i holl ymdrechion rhesymol i sicrhau bod y Personél Allweddol ar gael ar unrhyw adeg yn ystod yr Amserlen Gynhyrchu ar gyfer tynnu lluniau ffotograffig a chyfweliadau at ddibenion cyhoeddusrwydd. Ysgwyddir y gost gan y Cynhyrchydd lle bo S4C yn dymuno i'r Personél Allweddol fod yn bresennol i'r diben hwn yn ystod unrhyw gyfnod pan mae'r Personél Allweddol priodol wedi eu cytundebu i fod yn bresennol at ddibenion y Rhaglen ond, fel arall, ysgwyddir y gost gan S4C.
- 2.35 Ar gais S4C, bydd y Cynhyrchydd yn cyflenwi deunydd i S4C ar gyfer hyrwyddiadau ar y sgrin yn ddi-oed (o ystyried y dyddiadau Darlledu a fwriedir ar gyfer y Rhaglen). Y Comisiynydd fydd â'r rheolaeth olygyddol derfynol dros y deunydd ar gyfer hyrwyddiadau ar y sgrin. Bydd y Cynhyrchydd yn cyfleu'r deunydd i S4C yn unol â gofynion S4C a bydd y deunydd wedi ei glirio'n llwyr ymhob cyfrwng am byth (yn ddarostyngedig i unrhyw Daliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau sy'n daladwy yn unol â'r Cytundebau Perthnasau Diwydiannol a/neu i berchnogion/rheolwyr

hawliau yn Neunydd Trydydd Partion sydd wedi ei defnyddio yn y deunydd hyrwyddiadau ar sgrin. Mae'r Cynhyrchydd yn aseinio'r holl hawliau mae'n dal yn y deunydd ar gyfer hyrwyddiadau ar y sgrin i S4C am gyfnod yr hawlfraint ac ar ôl hynny, lle yn bosib, am byth. Pan fydd y Cynhyrchydd yn ffilmio neu'n recordio deunydd hyrwyddo o'r fath yn ystod cyfnod cynhyrchu'r Rhaglen (pan fo'r personél priodol ar gael), disgwylir i'r Cynhyrchydd ysgwyddo'r gost. Fel arall, gall S4C gytuno i dalu costau rhesymol cynhyrchu deunydd o'r fath ar yr amod bod y fath gostau wedi eu cytuno yn ysgrifenedig o flaen llaw. Ni fydd S4C yn cytuno i dalu'r fath gostau pan fod angen mynd i'r fath gostau o ganlyniad i fethiant gan y Cynhyrchydd i gyfleu'r deunydd hyrwyddo yn unol â gofynion S4C.

### Plant

- 2.36 Lle bo trefniadau ar gyfer cynhyrchu'r Rhaglen yn cynnwys plant neu oedolion bregus boed fel cyfranwyr, aelodau o'r gynulleidfa neu fel arall, bydd y Cynhyrchydd yn cydymffurfio â Pholisi Amddiffyn Plant S4C a'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol o bryd i'w gilydd sy'n ofynnol er mwyn sicrhau lles plant a phobl fregus.
- 2.37 Mae rheolau llym yn bodoli mewn perthynas â pharatoi adroddiadau am achosion llys sy'n cynnwys plant. Ym mhob achos, dylai'r Cynhyrchydd gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau neu orchmynion a roddir gan lys sy'n gwahardd rhyddhau unrhyw fanylion am unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan mewn unrhyw achos llys mewn unrhyw ffordd, boed hynny dan y Deddfau Plant a Phobl Ifanc, neu fel arall.
- 2.38 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu y bydd y Person Dynodedig ar gael ar bob adeg yn ystod cyfnodau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu'r Rhaglen er mwyn (a bydd yn) asesu ac yn cynghori ar y risgiau i les plant neu oedolion bregus sy'n ymwneud â chyn-gynhyrchu, cynhyrchu neu ôl-gynhyrchu'r Rhaglen a bydd y Person Dynodedig wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelwch plant gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) i'r fath lefel ag a gymeradwyir gan S4C.

### Iechyd a Diogelwch

- 2.39 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn, mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu y bydd yn cydymffurfio ac y bydd yn sicrhau y bydd yr holl unigolion a gytundebir gan y Cynhyrchydd neu sy'n cyfrannu at y Rhaglen (boed hynny fel personau cyflogedig neu weithwyr llawrydd neu fel arall) yn cydymffurfio â'r holl reolau, rheoliadau a deddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd.
- 2.40 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu ei fod wedi darparu gwybodaeth i S4C yn ymwneud â safonau, gweithdrefnau a pholisïau iechyd a diogelwch y Cynhyrchydd (gan gynnwys yr Holiadur Iechyd a Diogelwch) a bod y fath wybodaeth yn gywir a chyflawn at foddhad S4C. Mae'r Cynhyrchydd yn cytuno i roi gwybod i S4C yn ysgrifenedig yn syth os bydd unrhyw newid i'r fath wybodaeth neu bod unrhyw newid i sefyllfa'r Cynhyrchydd mewn perthynas â iechyd a diogelwch.
- 2.41 Mae'r Cynhyrchydd yn gyfrifol am ddiogelwch pawb sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad. Mae'r deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn gosod y cyfrifoldeb hwn ar y Cynhyrchydd. Nid yw polisi S4C yn disodli'r cyfrifoldebau statudol hyn.

- 2.42 Bydd gan S4C hawl ar unrhyw adeg wedi rhoi rhybudd rhesymol i gynnal neu i benodi cynrychiolydd i gynnal archwiliad o bolisi a threfn iechyd a diogelwch y Cynhyrchydd ac o'r modd y mae'r Cynhyrchydd yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cytundeb hwn a Chanllawiau Cydymffurfiaeth S4C sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Os na fydd S4C wedi ei bodloni bod y Cynhyrchydd yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn dilyn unrhyw archwiliad o'r fath, gall S4C:
- 2.42.1 fynnu bod y Cynhyrchydd yn cymryd camau i wella polisi a threfn iechyd a diogelwch y Cynhyrchydd; a/neu
- 2.42.2 derfynu'r Cytundeb hwn.

### Yswiriant

- 2.43 Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo cyn dechrau cynhyrchu'r Rhaglen i drefnu Polisiau Yswiriant addas gyda chwmnïau neu dansgrifennwr yswiriant cydnabyddedig ag enwau da yn erbyn pob perygl y'i hyswirir yn eu herbyn yn arferol gan gynhyrchydd doeth ac i dalu'r holl breimymau sy'n daladwy mewn perthynas â hwy. Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod a chadarnhau mai cyfrifoldeb y Cynhyrchydd fydd sicrhau fod y fantell a ddarperir yn sgîl y Polisiau Yswiriant yn ddigonol yn unol â threfn ac arfer y diwydiant ac amgylchiadau penodol y Rhaglen. Yn ddiragfarn i natur gyffredinol yr uchod, bydd y fath yswiriant yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:-
- 2.43.1 yswiriant trydydd parti/atebolrwydd cyhoeddus nes Cyfleu'r Rhaglen;
- 2.43.2 indemniad yn erbyn niwed i neu golli'r stoc negatif, y negatif, y tâp a'r trac sain ac unrhyw eiddo arall sydd i'w ddefnyddio mewn perthynas â chynhyrchu'r Rhaglen;
- 2.43.3 indemniad yn erbyn y risgiau o ddamwain i neu salwch neu farwolaeth y cyfarwyddwr, cynhyrchwyr, cyflwynwyr, uwch gynhyrchwyr, cast a chyfranwyr i'r Rhaglen ac unrhyw bersonél eraill a bennir gan S4C;
- 2.43.4 yswiriant atebolrwydd cyflogwyr trwy gydol cyfnod cynhyrchu'r Rhaglen; ac
- 2.43.5 unrhyw yswiriant arall y gall S4C neu'r gyfraith ei fynnu yn rhesymol.
- 2.44 Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod ac yn cadarnhau mai cyfrifoldeb y Cynhyrchydd yw cydymffurfio o ddydd i ddydd â thelerau amodau a chyfyngiadau'r Polisiau Yswiriant trwy gydol y cyfnod cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu nes dyddiad Cyfleu'r Rhaglen. Yn benodol, mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i hysbysu i S4C os gwrthodir mantell yswiriant i unrhyw fater neu elfen neu os tynnir y fantell yswiriant ar gyfer unrhyw un ohonynt yn ôl neu os bydd unrhyw waharddiadau neu eithriadau neu ddiidyniadau mewn perthynas ag unrhyw risgiau yswiriant.
- 2.45 Ni fydd y Cynhyrchydd yn gwneud dim nac yn caniatáu i ddim cael ei wneud bydd yn peri y gall unrhyw bolisi o'r fath gael ei ddiddymu, neu fod yn ddi-rym neu fod yn ddirymadwy (boed yn rhannol neu'n gyfan gwbl) neu'n anghasgladwy.
- 2.46 Caiff unrhyw arian sy'n daladwy dan unrhyw Bolisi Yswiriant perthnasol ei ddefnyddio i barhau gyda chynhyrchiad y Rhaglen oni bai fod y partion wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu'r Rhaglen. Os digwydd hyn, defnyddir yr holl

arian o'r fath i ad-dalu unrhyw arian a dalwyd gan S4C dan y Cytundeb hwn.

- 2.47 Bydd y Cynhyrchydd yn cadw'r Polisiâu Yswiriant mewn grym ac effaith lawn trwy gydol y cyfnod cyn-gynhyrchu a chynhyrchu a nes y Dyddiad Cyfleu a bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau fod S4C wedi ei nodi fel sawl i'w dalu ar achlysur unrhyw golled ac fel parti yswiriedig ychwanegol ar bob Polisi Yswiriant.
- 2.48 Bydd y Cynhyrchydd yn talu pob premiwm ar gyfer y Polisiâu Yswiriant.
- 2.49 Bydd y Cynhyrchydd, ar gais, yn rhoi i S4C yn brydlon yr holl wybodaeth a dogfennau sy'n berthnasol i bob Polisi Yswiriant a phob adnewyddiad, ychwanegiad ac estyniad i'r cyfryw Bolsïau Yswiriant.
- 2.50 Bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig ar unwaith am unrhyw ddigwyddiad a allai arwain at gais o dan unrhyw un o'r Polisiâu Yswiriant ac a allai rhwystro'r Cynhyrchydd rhag cydymffurfio â'i gyfrifoldebau cytundebol o dan y Cytundeb hwn. Bydd y Cynhyrchydd yn darparu i S4C gopïau o'r holl ohebiaeth a gwaith papur yn ymwneud ag unrhyw fater o'r fath yn union wedi'i dderbyn. Ni fydd y Cynhyrchydd yn gwneud neu'n bwrw ymlaen ag unrhyw gais yswiriant nac yn cyfaddawdu na setlo unrhyw gais yswiriant heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw S4C, er ni fydd S4C yn oedi neu'n gwrthod y fath gymeradwyaeth yn afresymol, a bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau fod yr holl bersonél yn dilyn cyfarwyddiadau rhesymol S4C yn brydlon.

#### Cadw yn Ddiogel

- 2.51 Bydd y Cynhyrchydd yn gyfrifol am gadw yn ddiogel prif gopi wrth gefn o'r Rhaglen ("duplicate master copy"). Mae'r Cynhyrchydd yn rhoi i S4C yr hawl llwyr a ddilyffethair i'r cyfryw gopi.

#### Perthnasau Diwydiannol

- 2.52 Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod mai'r Cynhyrchydd sy'n gyfrifol am berthnasau diwydiannol. Mae S4C yn disgwyl bod y Cynhyrchydd wedi sefydlu trefniadau perthnasau diwydiannol cymwys mewn perthynas â chynhyrchu a Chyfleu'r Rhaglen.
- 2.53 At ddibenion cyfrif a thalu'r Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau a all fod yn ddyledus i'r actorion, cerddorion ac awduron (os o gwbl) sy'n cyfrannu i wneuthuriad y Rhaglen, mae S4C yn cydnabod ei bod yn fanteisiol i S4C os yw'r fath gyfranwyr creadigol yn cael eu cytundebu a'u talu yn unol â'r Cytundebau Perthnasau Diwydiannol ac mae S4C yn annog y Cynhyrchydd i ddefnyddio'r Cytundebau Perthnasau Diwydiannol. Bernir felly fod S4C wedi cymeradwyo'r Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau sy'n unol â'r Cytundebau Perthnasau Diwydiannol ac ni fydd yn ofynnol i'r Cynhyrchydd sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig S4C ohonynt.

#### Gwarchod Data

- 2.54 Gall S4C brosesu'r holl ddata personol a gyflenwir i S4C mewn cysylltiad â'r Rhaglen, at ddibenion Ymelwa a Darlledu'r Rhaglen. Bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau caniatâd yr holl unigolion perthnasol sydd yn ymwneud â'r Rhaglen fel y gall S4C brosesu eu data personol at y diben hwn. Bydd yr holl ddata personol a gyflenwir i S4C yn cael ei brosesu yn

unol â Pholisi Diogelu Data S4C. Bydd y Cynhyrchydd yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau fel sy'n ofynnol o bryd i'w gilydd (gan gynnwys y DDD) mewn perthynas â chasglu a phrosesu data personol a darparir i'r Cynhyrchydd yn sgil cynhyrchu'r Rhaglen a/neu unrhyw weithgaredd rhyngweithio a/neu gystadlu sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen.

#### Isdeitlo, arwyddo a sain-ddisgrifio

- 2.55 Lle bo'r Brîff Golygyddol a Busnes yn nodi neu lle bo S4C yn hysbysu'r Cynhyrchydd bod y Rhaglen i gynnwys isdeitlau, arwyddo neu sain-ddisgrifio a bod y fath ddeunydd i'w gynhyrchu gan y Cynhyrchydd, mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i wneud neu i gomisiynu'r gwaith isdeitlo, arwyddo neu sain-ddisgrifio ac i Gyfleu'r cyfryw i S4C yn unol â Chanllawiau Isdeitlo S4C, unrhyw ganllawiau perthnasol eraill, y Gofynion Technegol a'r Gofynion Cyfleu erbyn Dyddiad Cyfleu yr Isdeitlau. Lle bo'r angen i ddarparu'r fath ddeunydd wedi ei nodi yn y Brîff Golygyddol a Busnes, mae cost y cyfryw yn gynnwysedig yn y Gyllideb. Lle bo'r angen i ddarparu'r fath ddeunydd yn cael ei gyfathrebu i'r Cynhyrchydd gan S4C yn hwyrach, bydd cost y fath ddeunydd yn fater i'w gytuno rhwng y Cynhyrchydd ac S4C.
- 2.56 Bydd S4C yn berchen ar unrhyw ddeunyddiau mynediad i deledu a gomisiynir ganddi a bydd ganddi'r hawl i olygu unrhyw ddeunydd isdeitlo, sain-ddisgrifio neu arwyddo a ddarperir gan y Cynhyrchydd. Os yw'r Cynhyrchydd yn dymuno cael copi o'r fath ddeunydd yn y ffurf y'i darlledwyd, bydd ganddo'r hawl i wneud cais i dderbyn copi ar roi rhybudd rhesymol ac ar yr amod ei fod yn talu costau S4C o ran darparu'r copi.
- 2.57 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd gan S4C ddisgresiwn llwyr o ran penderfynu pwy fydd yn cynhyrchu unrhyw ddeunydd isdeitlo, arwyddo neu sain-ddisgrifio, boed gan S4C yn fewnol, gan y Cynhyrchydd neu gan drydydd parti.

#### Polisi Dethol ac Archifo

- 2.58 Bydd y Cynhyrchydd yn cydymffurfio â Pholisi Dethol ac Archifo TAC neu unrhyw bolisi dethol ac archifo arall y gall S4C ei gymeradwyo yn ysgrifenedig.

### **Adran 3 - Cyfleu**

#### Gofynion Cyfleu

- 3.1 Ni ystyrir bod y Rhaglen wedi ei Chyfleu hyd nes y bydd y Cynhyrchydd wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cytundeb hwn gan gynnwys ond heb gyfyngiad gofynion Cymalau 3.3 i 3.8 ynghyd ag unrhyw ofynion ychwanegol neu wahanol a bennir yn y Brîff Golygyddol a Busnes.

#### Dyddiad Cyfleu

- 3.2 Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i hysbysu S4C ar unwaith yn ysgrifenedig os yw'n ymddangos ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm y gallai Cyfleu'r Rhaglen gael ei oedi y tu hwnt i'r Dyddiad Cyfleu. Bydd unrhyw hysbysiad o'r fath yn nodi'r rhesymau am unrhyw fethiant tebygol i gwrdd â'r Dyddiad Cyfleu.

#### Cyfleu'r Rhaglen ac Isdeitlau

### 3.3 Bydd y Cynhyrchydd cyn neu erbyn:

3.3.1 y dyddiad (ac os yw'r Rhaglen yn cael ei Chyfleu i S4C ar ddiwrnod y darllediad cyntaf o'r Rhaglen, yr amser) a bennir yn y Briff Golygyddol a Busnes a/neu Atodlen 4 fel y Dyddiad Cyfleu ar gyfer Rhaglen a recordiwyd o flaen llaw yn Cyfleu Copi Darlledu'r Rhaglen ac unrhyw drac cerddoriaeth ac effeithiau cysylltiedig i lyfrgellydd tâp fideo S4C yng Nghanolfan Ddarlledu S4C yng Nghaerdydd (wedi eu marcio'n glir at sylw'r Llyfrgellydd VTR) yn unol â'r Gofynion Technegol. Bydd y casét/DVD, cloc y rhaglen, bocsy y tâp a'r adroddiad recordio yn nodi'n glir a chyson teitl y Rhaglen a rhif adnabod y Rhaglen fel y'u nodir yn y Briff Golygyddol a Busnes ac os yw'r Rhaglen wedi ei recordio mewn mono a stereo a/neu drwy ddefnyddio'r broses Dolby ai peidio a pha draciau sain a ddefnyddir. Cyflëir yn electroneg (oni bydd Pennaeth Gwasanaethau Cyflwyno S4C wedi cytuno yn benodol fel arall) yr adran gyfleu tâp o'r ffurflen 'Rhaglen Wedi'i Chwblhau' (a fydd yn cynnwys ond heb gyfyngiad y deunydd y cyfeirir ato yng Nghymal 2.31) a'r holl ddogfennau deunyddiau corfforol a gwybodaeth a ddisgrifir yn yr adrannau o'r Gofynion Technegol gyda'r penawdau "Deunyddiau a Gyflëir ar gyfer Rhaglenni a Recordiwyd" ("Deliverables for Recorded Programmes") ac adroddiad recordio yn y ffurf a bennir yn yr adran o'r Gofynion Technegol gyda'r pennawd "Dogfennau" ("Documentation") gyda'r Copi Darlledu;

3.3.2 yr amser a'r dyddiad a bennir yn y Briff Golygyddol a Busnes a/neu Atodlen 4 fel y Dyddiad Cyfleu ar gyfer Rhaglen fyw neu Raglen o ddarllediad allanol sydd wedi ei recordio o flaen llaw ond sy'n cael ei chyfleu i S4C drwy gysylltiad trosglwyddo, yn Cyfleu'r cyfryw Raglen yn unol â Chymal 3.5

a byddant yn rhydd o unrhyw a phob hawliad lien gwystlen morgais a llyffethair o unrhyw fath ac eithrio'r Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau ac unrhyw gyfyngiadau o ran y Deunydd Trydydd Partïon y mae S4C wedi eu cymeradwyo yn ysgrifenedig.

3.4 Oni chytunir fel arall gan S4C yn ysgrifenedig, bydd Copi Darlledu pob pennod o'r Rhaglen yn cael ei gyfleu yn y fformat a nodir yn y Briff Golygyddol a Busnes ac ymhob ffordd arall yn hollol unol â'r darpariaethau yn y Gofynion Technegol sy'n weithredol i'r fformat hynny.

3.5 Pan fo S4C yn cytuno i Raglen fyw neu Raglen o ddarllediad allanol wedi ei recordio o flaen llaw gael ei Chyfleu drwy gysylltiad trosglwyddo i Ganolfan Ddarlledu S4C, caiff y costau trosglwyddo a chysylltiadau cyfathrebu (cyn belled y cytunwyd arnynt o flaen llaw gan S4C) eu had-dalu gan S4C i'r Cynhyrchydd a chyflenwir y broses yn gwbl unol â'r Gofynion Technegol. Ni ystyrir fod S4C wedi cytuno i'r fath gostau oni bai y cofnodir y fath gydsyniad yn ysgrifenedig.

3.6 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu ac yn ymrwmo y Cyflëir y Rhaglen yn barod i'w darlledu a heb fod angen i'w dychwelyd at y Cynhyrchydd yn ddiweddarach ar gyfer cywiro gwallau sillafu, newid capsionau a phethau tebyg. Yn ddiragfarn i rwymediau a hawliau eraill S4C (boed o dan y Cytundeb hwn neu fel arall), lle fod angen i S4C dychwelyd Rhaglen at y Cynhyrchydd i'w gywiro, gall S4C godi ffi ar y Cynhyrchydd yn unol â'r ddogfen "Ffioedd Cyfleu Hwyr" sydd ar y safle cynhyrchu ar Wefan S4C.



Bydd gan S4C yr hawl i ddiynnu'r cyfryw ffioedd o'r arian sy'n ddyledus gan S4C i'r Cynhyrchydd o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall, neu i'w hawlio fel dyled sy'n ddyledus ar hawliad S4C. Mae'r partion yn cydnabod a chytuno bod y fath iawndal yn amcangyfrif dilys o flaen llaw o'r golled y mae S4C yn debygol o ddiodef mewn perthynas â'r amser a'r adnoddau a ddefnyddir gan reolwyr S4C a'r costau gweinyddol a ddiodefir gan gyfarwyddiaethau perthnasol S4C wrth ymdrin â'r fath sefyllfa.

### Gwybodaeth am y Rhaglen

- 3.7 Bydd y Cynhyrchydd yn Cyfleu (i adran Materion Busnes S4C oni nodir yn wahanol) cyn neu erbyn y dyddiad neu'r dyddiadau perthnasol a nodir yn rhan 6.1 y Briff Golygyddol a Busnes a/neu Atodlen 4: -
  - 3.7.1 gweddill y ffurflen "Rhaglen Wedi'i Chwblhau" (uwchlaw'r adran o'r ffurflen a gyflëir i S4C yn unol â Chymal 3.3.1) yn ffurf safonol S4C (y cyflëir i S4C yn electroneg) fydd yn cynnwys, heb gyfyngiad:
    - 3.7.1.1 ffurflen restru cerddoriaeth yn ffurf safonol S4C;
    - 3.7.1.2 manylion llawn o'r Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau sy'n daladwy yn unol â'r Cytundeb hwn;
    - 3.7.1.3 manylion am unrhyw ffioedd a/neu delerau sy'n weithredol o ran defnyddio unrhyw Ddeunydd Trydydd Partion o fewn y Rhaglen;
    - 3.7.1.4 ildiadau hawliau moesol parthed pob person sy'n cyfrannu deunydd hawlfraint i'r Rhaglen;
    - 3.7.1.5 manylion am artistiaid, cerddorion a pherfformwyr ynghyd â'u cytundebau;
    - 3.7.1.6 unrhyw gytundebau eraill nas cyflwynwyd eisoes i S4C yn unol â Chymalau 2.4 a/neu 2.19;
  - 3.7.2 un copi o'r Rhaglen ar DVD gyda'r cod amser wedi ei ar-losgi arno ynghyd ag un copi o'r Rhaglen ar DVD heb god amser wedi ei ar-losgi arno i'w cyfleu i'r llyfrgell ar y dyddiad a bennir y Briff Golygyddol a Busnes a/neu Atodlen 4 (onibai bo'r Briff Golygyddol a Busnes a/neu'r Atodlen 4 neu'r Comisiynydd yn gofyn am ail gopi o'r Rhaglen ar DVD gyda'r cod amser wedi ei ar-losgi arno);
  - 3.7.3 yn achos Rhaglen fyw neu Raglen sydd wedi ei recordio o flaen llaw ond sy'n cael ei Chyfleu i S4C drwy gysylltiad trosglwyddo, oni chytunir yn wahanol gan adran Faterion Busnes S4C, y Copi Darlledu o'r Rhaglen ynghyd â dau gopi o'r Rhaglen ar DVD yn unol â Chymal 3.7.2 uchod i'w cyfleu i'r llyfrgell ar y dyddiad a bennir yn y Briff Golygyddol a Busnes a/neu Atodlen 4.
- 3.8 Bydd yr Wybodaeth am y Rhaglen yn gyflawn yn gynhwysfawr ac yn gywir.
- 3.9 Yn ogystal â darparu'r Wybodaeth am y Rhaglen, bydd y Cynhyrchydd yn cadw cofnodion llawn a chywir a'r holl waith papur cytundebol o ran cytundebu cyfranwyr i'r Rhaglen a thrwyddedu'r Deunydd Trydydd Partion

ar gyfer ei ddefnyddio o fewn y Rhaglen a bydd yn caniatáu i S4C i'w archwilio, copïo a'u defnyddio heb unrhyw rwystr a heb dâl.

### Gwallau ac Oedi

3.10 Bernir bod y Rhaglen (oni bai ei bod yn Rhaglen fyw neu'n Rhaglen a chyflëir i S4C drwy gysylltiad trosglwyddo a/neu'n Rhaglen a gyflëir i S4C ar dâp ar ddiwrnod y darllediad cyntaf o'r Rhaglen) yn cydymffurfio â'r Gofynion Technegol a bernir bod y deunydd yn cydymffurfio â Chymalau 2.6 a 2.7 a gofynion y Briff Golygyddol a Busnes pan fo S4C yn ei darlledu CYHYD â bod:

3.10.1 y Rhaglen wedi ei Chyfleu yn unol â'r Gofynion Cyfleu; **a**

3.10.2 S4C heb hysbysu'r Cynhyrchydd yn ysgrifenedig cyn darlledu'r Rhaglen bod S4C yn gwrthod y Rhaglen er gwaethaf y ffaith y darlledir y Rhaglen.

Lle bo'r Cynhyrchydd wedi cydymffurfio â Chymal 3.10.1 a lle bo S4C yn rhoi rhybudd o wrthod yn unol â Chymal 3.10.2 ond er gwaethaf hynny y darlledir y Rhaglen gan S4C, yna (yn ddi-ragfarn i'w hawliau a'i rhwymediau eraill) ni fydd gan S4C yr hawl i ddibynnu ar y ffaith bod S4C wedi gwrthod y Rhaglen fel rheswm i derfynu'r Cytundeb hwn o dan Gymal 7.1. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd y ddarpariaeth hon yn berthnasol i raglenni byw nac i raglenni a gyflëir i S4C drwy gysylltiad trosglwyddo nac i raglenni a gyflëir i S4C ar dâp ar ddiwrnod y darllediad cyntaf o'r rhaglen berthnasol.

3.11 Bernir bod y Rhaglen (os yw'n Rhaglen fyw neu'n Rhaglen a gyflëir i S4C drwy gysylltiad trosglwyddo neu'n Rhaglen a gyflëir i S4C ar dâp ar ddiwrnod y darllediad cyntaf o'r Rhaglen) yn cydymffurfio â'r Gofynion Technegol a bernir bod y deunydd yn cydymffurfio â Chymalau 2.6 a 2.7 a gofynion y Briff Golygyddol a Busnes pan fo S4C yn ei darlledu CYHYD â bod:

3.11.1 y Rhaglen wedi ei Chyfleu yn unol â'r Gofynion Cyfleu ac yn benodol ond heb gyfyngiad cyn neu erbyn yr amser a'r dyddiad a bennir yn y Briff Golygyddol a Busnes a/neu Atodlen 4 fel y Dyddiad Cyfleu; **a**

3.11.2 S4C heb hysbysu'r Cynhyrchydd yn ysgrifenedig o fewn pedwar Diwrnod Gwaith ar ddeg (14 Diwrnod Gwaith) o'i darlledu bod S4C yn gwrthod y Rhaglen er gwaethaf y ffaith y darlledwyd y Rhaglen.

3.12 Yn ddarostyngedig i Gymalau 3.10 a 3.11 ac yn ddiragfarn i'w hawliau a'i rhwymediau eraill (boed o dan y Cytundeb hwn neu fel arall), bydd hawl gan S4C i wrthod y Rhaglen (neu unrhyw bennod ohoni) am un neu fwy o'r rhesymau canlynol (yn unig):-

3.12.1 nad yw'r Rhaglen (neu unrhyw bennod ohoni) ym marn lwyr ond rhesymol S4C o safon dechnegol ddigonol yn unol â'r Gofynion Technegol; neu

3.12.2 bod cynnwys y Rhaglen (neu unrhyw bennod ohoni) ym marn lwyr ond rhesymol S4C yn torri yn sylweddol unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn mewn modd na ellir ei gywiro o fewn amser rhesymol gan ystyried bwriadau S4C o ran darlledu'r Rhaglen; neu

- 3.12.3 bod cynnwys y Rhaglen (neu unrhyw bennod ohoni) ym marn lwyron ond rhesymol S4C yn groes i Ganllawiau Cydymffurfiaeth S4C.
- 3.13 Heblaw i'r fath raddau y bernir bod y Rhaglen yn cydymffurfio â'r Gofynion Technegol neu fod y deunydd a gyflwynir yn unol â Chymalau 2.6 a 2.7 a gofynion y Briff Golygyddol a Busnes wedi ei gymeradwyo yn sgil Cymal 3.10 neu 3.11, ni fernir bod darlledu'r Rhaglen yn golygu bod y Rhaglen yn cydymffurfio â Chanllawiau Cydymffurfiaeth S4C ac ni ystyrir fel ildiad gan S4C o unrhyw dorri ar y Cytundeb hwn gan y Cynhyrchydd nac fel ildiad o hawliau a rhwymedïau S4C mewn perthynas â'r fath dor-cytundeb gan gynnwys ond heb gyfyngiad hawl S4C i fynnu Cyfleu unrhyw Wybodaeth am y Rhaglen neu unrhyw wybodaeth arall y mae gan S4C yr hawl i'w derbyn o dan y Cytundeb hwn ac sydd heb eu Cyfleu ar yr adeg honno.
- 3.14 Bydd gan S4C yr hawl yn ôl ei disgresiwn llwyr ei hun i benderfynu peidio â darlledu'r Rhaglen yn gyfan neu yn rhannol.
- 3.15 Os yw'r Cynhyrchydd yn cyfleu'r Rhaglen neu unrhyw Bennod ohoni yn hwyr, bydd gan S4C yr hawl i ddiwynnu, o'r arian sy'n ddyledus gan S4C i'r Cynhyrchydd o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall, neu i'w hawlio fel dyled sy'n ddyledus ar hawliad S4C, iawndal ariannol penodedig am bob diwrnod o oedi yn ôl y swm a nodir yn Atodlen 4. Mae'r partion yn cydnabod a chytuno bod y fath iawndal yn amcangyfrif dilys o flaen llaw o'r golled y mae S4C yn debygol o ddiodeff mewn perthynas yn unig â'r amser a'r adnoddau a ddefnyddir gan reolwyr S4C a'r costau gweinyddol a ddiodeffir gan Adrannau S4C wrth ymdrin â'r fath oedi a'i ganlyniadau.
- 3.15A Lle bo S4C yn ymarfer ei hawliau dan Gymal 3.15, ystyrir y cyfryw iawndal ariannol penodedig ag a delir neu ag a ddiwynnir fel rhwymedi cyflawn o ran amser rheolwyr S4C a'r costau gweinyddol a ddiodeffwyd ond ni fydd yn atal S4C rhag gweithredu ei hawliau a'i rhwymedïau (boed o dan y Cytundeb neu fel arall) mewn perthynas ag unrhyw golledion eraill.
- 3.15B Os bydd unrhyw Wybodaeth am y Rhaglen heb ei chyflwyno i S4C o fewn 28 niwrnod i Gyfleu'r Rhaglen neu'r Bennod y mae'n berthnasol iddi i S4C, yna gall S4C gymryd unrhyw gamau y bydd yn ystyried bod angen eu cymryd i gael y wybodaeth honno ac mae'r Cynhyrchydd yn cytuno i ddigolledi S4C cost resymol gwneud hynny (hyd at uchafswm o £500 y Bennod). Bydd gan S4C yr hawl i ddiwynnu'r cyfryw gostau o'r arian sy'n ddyledus gan S4C i'r Cynhyrchydd o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall, neu i'w hawlio fel dyled sy'n ddyledus ar hawliad S4C.
- 3.16 Ni fydd S4C yn gweithredu ei hawliau o dan Gymal 3.15, 3.15A a 3.15B lle bo'r oedi yn y Cyfleu yn deillio'n llwyr o achos o Force Majeure sydd wedi ei hysbysu i S4C yn unol â Chymal 8.5. Yn benodol ond heb gyfyngiad i'r uchod, ni fydd S4C yn hawlio'r iawndal ariannol penodedig mewn perthynas ag unrhyw ddogfennau sy'n rhan o'r Wybodaeth am y Rhaglen (gan gynnwys ond heb gyfyngiad unrhyw drwyddedau gan PRS, MCPS, PPL, VPL neu unrhyw gyrff eraill sy'n rheoli'r hawliau perfformio neu gydamsesu mewn unrhyw ddarnau o gerddoriaeth a ymgorfforir yn y Rhaglen, unrhyw drwyddedau gan berchnogion unrhyw ddeunydd archif neu ffotograffau neu weithiau artistig a gynhwysir yn y Rhaglen neu unrhyw drwyddedau mewn perthynas ag unrhyw Ddeunydd Trydydd

Partion eraill) lle mae'r Cynhyrchydd wedi ceisio ac wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig neu ar lafar gan deiliaid hawlfraint ond y mae'r Cynhyrchydd yn methu â chyfleu y drwydded ffurfiol i S4C o fewn y cyfnod neu'r cyfnodau perthnasol a bennir yng Nghymal 3.7 am resymau tu hwnt i reolaeth resymol y Cynhyrchydd ac yn benodol o ganlyniad i oedi ar ran y trydydd parti perthnasol. Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i ddefnyddio'i ymdrechion rhesymol i sicrhau ac i gyfleu i S4C y Wybodaeth am y Rhaglen sy'n weddill cyn gynted ag y bo modd wedi'r dyddiad neu'r dyddiadau priodol a nodir yng Nghymal 3.7. Fe fydd S4C a'r Cynhyrchydd yn adolygu'r sefyllfa o ran y Wybodaeth am y Rhaglen nas cyflenwyd i S4C yn achlysurol a, chyn belled â bod y Cynhyrchydd yn medru bodloni S4C ei fod wedi defnyddio ei ymdrechion rhesymol i sicrhau a chyfleu i S4C y Wybodaeth am y Rhaglen sy'n weddill ers y dyddiad(au) a nodir yng Nghymal 3.7 ar adeg unrhyw adolygiad o'r fath e.e. drwy ddarparu copïau o lythyron a ddanfonwyd at berchnogion y Deunydd Trydydd Partion dan sylw o leiaf unwaith bob pythefnos yn pwysu arnynt i ddarparu'r trwyddedau sy'n weddill, yna ni fydd S4C yn hawlio'r iawndal ariannol penodedig mewn perthynas â'r Wybodaeth am y Rhaglen sy'n weddill.

## **Adran 4 - Darpariaethau Ariannol**

### Taliadau i'r Cynhyrchydd

- 4.1 Yn ddarostyngedig i ac ar yr amod bod y Cynhyrchydd yn cydymffurfio ac yn cyflawni ei ymrwymadau a'i warantau yn unol â'r Cytundeb hwn yn llawn ac mewn pryd, bydd S4C yn talu i'r Cynhyrchydd y gost o wneud y Rhaglen fel y'i pennir yn ac hyd at gyfanswm y Gyllideb yn unol â'r Dylif Ariannol oni chytunir fel arall rhwng S4C a'r Cynhyrchydd ac yn ddarostyngedig i gymal 4.8. Mae S4C drwy hyn yn cadw'r hawl i ddal cyfran o'r Ffi Gynhyrchu (swm y cyfan i'w bennu gan S4C yn ei disgresiwn) yn ôl i'w dalu yn unol â chymal 4.19.
- 4.2 Ni fydd S4C yn gohirio unrhyw daliad o dan y Cymal hwn oni bai bo unrhyw ddiffyg cyflawni o natur sylweddol a bydd S4C yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o bedwar diwrnod ar ddeg (14 diwrnod) o unrhyw ddiffyg cyflawni sydd ym marn S4C yn rhoi'r hawl i S4C atal taliadau o dan y Cymal hwn er mwyn i'r Cynhyrchydd gael cyfle i gywiro'r fath ddiffyg cyflawni.

### Costau a Gyllidwyd

- 4.3 Cyflwynwyd y Gyllideb gan y Cynhyrchydd i S4C ac fe'i derbyniwyd a'i chymeradwywyd gan S4C wedi ymgynghori â'r Cynhyrchydd. Ni ystyrir y ffaith bod S4C wedi cymeradwyo'r gyllideb fel gosodiad na datganiad gan S4C bod y Gyllideb yn ddigonol er mwyn cwblhau'r Rhaglen yn unol â'r safon sy'n ofynnol o dan y Cytundeb hwn neu, yn wir, o gwbl.
- 4.4 Bydd y Cynhyrchydd yn rheoli ac yn defnyddio'r arian sydd ar gael oddi wrth S4C ar gyfer gwneud y Rhaglen mewn modd ffyddlon a chydwybodol, ac ni fydd yn ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas arall o gwbl, a bydd yn talu unrhyw ddyledion mewn perthynas â'r Rhaglen yn brydlon.
- 4.5 Os bydd y Cynhyrchydd yn dymuno gwario mwy ar eitem arbennig o fewn y Gyllideb bydd ganddo'r hawl i wneud hynny cyhyd ag y bo modd canfod yr arian ychwanegol drwy wario llai ar eitemau eraill (**ac eithrio'r Elfennau Allweddol**) heb effeithio ar ansawdd gyffredinol y Rhaglen ac ar

yr amod hefyd yr hysbysir adran Materion Busnes S4C yn ysgrifenedig o bob amrywiad gwariant o'r fath.

#### Adroddiadau Cynnydd y Gwaith ac Adroddiadau Cost

- 4.6 Bydd y Cynhyrchydd yn cwblhau ac yn cyflwyno i S4C adroddiadau cynnydd y gwaith a/neu adroddiadau cost ar y Rhaglen yn ôl gofyn S4C ac yn y ffurf sy'n ofynnol gan S4C, ar gyfer trefn gyllidebu a rheolaeth gost arferol S4C, a bydd S4C yn darparu manylion y drefn honno i'r Cynhyrchydd cyn i'r Cynhyrchydd gychwyn cynhyrchu'r Rhaglen. Rhaid i'r cynhyrchydd y cyfeirir ato yn y Briff Golygyddol a Busnes arwyddo pob Adroddiad. Mae gan S4C yr hawl i fynnu copïau cydamserol o Ddatganiadau Banc er mwyn tystiolaethu'r gwariant sydd wedi ei arddangos yn yr adroddiadau cost.
- 4.7 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu y bydd pob Adroddiad wedi ei gwblhau'n llawn yn gywir ac yn ffyddlon, ac yn cydnabod ei fod yn ymwybodol y bydd S4C yn talu ar sail yr Adroddiadau fel y'u cyflwynir. Os bydd S4C yn gwneud taliad ar sail Adroddiad anghywir, ffug neu gamarweiniol, yna bydd y Cynhyrchydd yn ad-dalu unrhyw ordaliad i S4C ar gais S4C o fewn wyth niwrnod ar hugain (28 diwrnod) i'r cais fel dyled gytundebol, a bydd gan S4C yr hawl (ac eithrio lle bo'r camgymeriad yn amlwg ac yn hawdd i'w gywiro neu lle bo'r Cynhyrchydd yn credu'n rhesymol bod yr Adroddiad yn gywir) i derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd a/neu ymarfer ei hawliau o dan Gymal 4.9.

#### Taliadau a Dylif Ariannol

- 4.8 Gwneir y taliadau ar sail gofynion ariannol y cynhyrchiad, a ddadlennir mewn Adroddiadau cyfredol sydd wedi eu cwblhau'n gywir a'u llofnodi, nid ar sail y symiau sydd wedi'u cynnwys yn y Dylif Ariannol gan mai amcangyfrifon yn unig ydynt. Os cyfyd unrhyw anghydfod o ran gofynion ariannol y cynhyrchiad, bydd penderfyniad S4C yn rhagori. Bydd y dyddiadau a'r nifer o daliadau yn unol â'r Dylif Ariannol ac ni fydd rheidrwydd ar S4C i dalu unrhyw randal yn gynnar. Bydd y Cynhyrchydd yn cyflwyno anfonebau TAW cywir i gyd-fynd â'r dyddiadau yn y Dylif Ariannol a bydd gan S4C pedwar diwrnod ar ddeg (14 diwrnod) o dderbyn pob anfoneb i dalu'r fath anfoneb.
- 4.9 Heb amharu ar ei hawliau a'i rhwymedïau mewn manau eraill yn y Cytundeb hwn nac yn gyffredinol, bydd gan S4C yr hawl i gadw'n ôl y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw daliad sy'n ddyledus i'r Cynhyrchydd dan y Cytundeb hwn os:
- 4.9.1 yw S4C wedi gwrthod y Rhaglen (neu unrhyw bennod ohoni); neu
  - 4.9.2 os nad yw'r Cynhyrchydd wedi Cyfleu (yn unol â Chymal 3.1) y Rhaglen (neu unrhyw bennod ohoni) erbyn y Dyddiad Cyfleu; neu
  - 4.9.3 os nad yw pob caniatâd sy'n ofynnol dan y Cytundeb hwn wedi ei sicrhau neu os yw'r Cynhyrchydd fel arall yn torri telerau'r Cytundeb hwn ac nid yw'r tor-cytundeb hwn yn deillio o dor-cytundeb amlwg gan S4C o'r Cytundeb hwn; neu
  - 4.9.4 os yw S4C, yn dilyn archwiliad dilysu neu archwiliad manwl dan Gymal 4.20 wedi hysbysu'r Cynhyrchydd nad yw S4C wedi ei bodloni bod yr holl wariant wedi digwydd yn rhesymol ac yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn; neu
  - 4.9.5 os talodd S4C ar sail Adroddiad anghywir ffug neu gamarweiniol (ac eithrio lle bo'r camgymeriad yn amlwg ac yn hawdd i'w gywiro neu

Ile bo'r Cynhyrchydd yn credu'n rhesymol bod yr Adroddiad yn gywir).

- 4.10 Ni ddehonglir y ffaith bod S4C wedi talu'r cyfan neu ran o anfoneb i olygu bod S4C yn derbyn bod yr anfoneb honno'n gywir neu'n ddilys.

#### T.A.W.

- 4.11 Nid yw'r symiau a nodir yn y Cytundeb hwn yn cynnwys Treth Ar Werth ac fe delir y dreth honno pan fo'n briodol wedi derbyn anfoneb TAW gywir. Mewn achosion lle gwneir y Rhaglen yn gyfan gwbl neu'n rhannol y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol a phan fo treth ar werth a threthi eraill tramor lleol yn daladwy, yna bydd y Cynhyrchydd yn gwneud ei orau glas i sicrhau'r credydau a'r ad-daliadau hynny sydd fel rheol ar gael o'r diriogaeth berthnasol a bydd yn rhoi'r rhai hynny tuag at Wir Gostau'r Rhaglen.

#### Cyfrif Banc

- 4.12 Fel rhagamod i ymrwymadau talu S4C, bydd y Cynhyrchydd yn agor cyfrif banc cynhyrchiad mewn perthynas â'r Rhaglen yn ei enw ei hun ac yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig o'r holl fanylion y bydd S4C yn ei fynnu am y cyfryw gyfrif. Telir pob swm sydd yn daladwy i'r Cynhyrchydd gan S4C yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn i'r Cyfrif Banc.
- 4.13 Ni fydd y Cynhyrchydd yn talu unrhyw arian allan o'r Cyfrif Banc oni fydd hynny at ddibenion y Cytundeb hwn. Bwriedir i'r Cyfrif Banc fod yn gofnod llawn o'r holl dderbyniadau a thaliadau sy'n berthnasol i'r Rhaglen a'r Rhaglen yn unig, ac ni fydd y Cynhyrchydd dan unrhyw amgylchiadau o gwbl yn defnyddio'r Cyfrif Banc fel ei gyfrif busnes.
- 4.14 Ni fydd y Cynhyrchydd yn rhoi unrhyw arian a dderbynnir yn sgil y Cytundeb hwn mewn cyfrif sy'n magu llog nac mewn unrhyw fuddsoddiad o unrhyw fath heb ganiatâd penodol S4C ar yr amod os oes ar unrhyw adeg swm sylweddol yn y Cyfrif Banc nad oes ei angen ar unwaith i dalu'r Gwir Gostau yna bydd y Cynhyrchydd, ar ôl rhoi gwybod yn ysgrifenedig i adran Materion Busnes S4C yn trosglwyddo'r cyfryw swm i gyfrif sy'n magu llog a bydd yn rhoi cyfrif i S4C am y llog a enillir arno a bydd y cyfryw log yn cael ei roi tuag at y Gwir Gostau. Ystyrir y cyfryw gyfrif sy'n magu llog fel rhan o'r Cyfrif Banc ac fe fydd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau sy'n berthnasol iddo.
- 4.15 Mae'r Cynhyrchydd yn datgan y bydd yn trafod y cyfryw arian yn gyfan gwbl unol â darpariaethau'r Cytundeb hwn.

#### Cyfrifon Cofnodion Ariannol a Datganiadau Costau

- 4.16 Bydd y Cynhyrchydd yn cadw cyfrifon a chofnodion ariannol gwir, ffyddlon, cywir a chyfredol o gynhyrchiad y Rhaglen ac ni fydd yn cael gwared ar y talebau, anfonebau a derbynebau perthnasol hyd nes bydd S4C wedi cwblhau'r archwiliad dilysu a/neu archwiliad manwl dan Gymal 4.20.
- 4.17 Wedi cwblhau'r Rhaglen, bydd y Cynhyrchydd ar ei gost ei hun yn paratoi datganiad o'r gost derfynol (a fydd yn rhoi manylion am gyfanswm y Gwir Gostau, a gall S4C fynnu prawf o'r gwariant yn ffurf Datganiadau Banc) a bydd yn anfon copi at S4C cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac

ymhob achos o fewn pedwar (4) mis i Gyfleu pennod olaf y Rhaglen fan bellaf.

- 4.18 Bydd y cynhyrchydd a nodir yn y Brîff Golygyddol a Busnes yn tystio bod y datganiad o'r gost derfynol y cyfeirir ato yng Nghymal 4.17 yn gywir.
- 4.19 Ar yr amod bod y Rhaglen wedi ei chynhyrchu a'i Chyfleu yn gwbl unol â'r Cytundeb hwn, bydd S4C yn talu'r gyfran o'r Ffi Gynhyrchu sy'n weddill parthed y Rhaglen i'r Cynhyrchydd o fewn pedwar ar ddeg (14) o Ddiwrnodau Gwaith i'r olaf i ddigwydd o'r canlynol: (i) terfyn unrhyw archwiliad dilysu neu archwiliad manwl gan S4C o'r datganiad cost derfynol neu gadarnhad gan S4C nad yw'n dewis gwneud y fath archwiliad neu (ii) derbyniad gan S4C o'r olaf i'w Cyfleu o'r deunyddiau, dogfennau neu wybodaeth i'w Cyfleu yn unol â'r Gofynion Cyfleu. Bydd S4C yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd os nad yw'n bwriadu dilysu neu wneud archwiliad manwl o'r datganiad cost derfynol.

#### Dilysu ac Archwiliadau Ariannol

- 4.20 Bydd gan S4C yr hawl i archwilio, dilysu a chymryd copïau o'r holl gyfrifon a'r cofnodion ariannol sy'n ymwneud â'r Rhaglen ac unrhyw gyfrifon a chofnodion eraill y Cynhyrchydd sy'n berthnasol i'r Cytundeb hwn ar unrhyw adeg o fewn oriau busnes arferol ar ôl rhoi rhybudd rhesymol ac, yn ôl ei disgresiwn ac ar ei chost ei hun, gall S4C ar unrhyw adeg fynd ati i ddilysu'n fanwl a/neu gynnal archwiliad manwl, y gellir ei wneud gan staff S4C neu gan unrhyw gwmni cydnabyddedig o gyfrifwyr a gyflogir gan S4C.
- 4.21 Bydd y Cynhyrchydd yn rhoi pob cymorth rhesymol ac yn cydweithredu'n llawn â phob archwiliad dilysu ac archwiliad manwl a gynhelir dan Gymal 4.20. Bydd S4C yn ysgwyddo'r costau ychwanegol (a gytunwyd o flaen llaw neu, os methir â chytuno, y costau ychwanegol rhesymol) a ddiroddir gan y Cynhyrchydd o gynnig y fath gymorth onibai bo unrhyw archwiliad dilysu neu archwiliad manwl yn datgelu cam-adrodd yn ôl ar ran y Cynhyrchydd.
- 4.22 Os dengys unrhyw archwiliad dilysu neu archwiliad manwl a gynhelir dan Gymal 4.20 bod ad-daliad yn ddyledus i S4C neu gan S4C i'r Cynhyrchydd lle bo'r Cynhyrchydd wedi tan ddatgan yn amryfus gofynion ariannol y cynhyrchiad yn yr Adroddiadau, yna bydd y Cynhyrchydd neu S4C yn gwneud yr ad-daliad hwnnw o fewn wyth diwrnod ar hugain (28 diwrnod) o dderbyn cais y llall iddo wneud hynny.

#### Gorwariant

- 4.23 Os daw'r Cynhyrchydd yn ymwybodol y bydd neu y gall fod Gorwariant, bydd y Cynhyrchydd yn rhybuddio adran Materion Busnes S4C yn ysgrifenedig ar unwaith gan roi manylion llawn o'r rhesymau am y Gorwariant neu'r Gorwariant tebygol a gan nodi i ba raddau (os o gwbl) y gellir (ym marn y Cynhyrchydd) llyncu'r fath Orwariant neu Orwariant tebygol o fewn y Gyllideb.
- 4.24 Os bydd:
- 4.24.1 y Cynhyrchydd wedi rhoi rhybudd i S4C dan Gymal 4.23, neu

4.24.2 yn ymddangos ym marn resymol S4C fod Gorwariant yn debygol, yna daw'r darpariaethau canlynol i rym:

- (i) gall S4C trwy roi rhybudd ysgrifenedig fynnu bod cynrychiolwyr y Cynhyrchydd ym mynychu cyfarfod yn swyddfeydd S4C (neu fan arall a bennir gan S4C) er mwyn archwilio a thrafod costau cynhyrchu'r Rhaglen;
- (ii) unwaith y bydd wedi derbyn rhybudd dan baragraff (i) y Cymal hwn, ni fydd y Cynhyrchydd yn gwneud unrhyw daliad pellach nac yn ymrwymo i dalu unrhyw arian pellach mewn perthynas â'r Rhaglen heb ganiatâd penodol S4C, ac ni fydd yn ofynnol i S4C (ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir yng Nghymal 4.25) dalu unrhyw arian i'r Cynhyrchydd yn y cyfamser heblaw mewn perthynas â thaliadau y mae'r Cynhyrchydd wedi ymrwymo'n gytundebol i'w gwneud i drydydd partïon ac sy'n ymrwymadau yr oedd yn ddilys i'r Cynhyrchydd gytuno iddynt yn sgil y Cytundeb hwn;
- (iii) bydd cynrychiolwyr y Cynhyrchydd yn mynychu unrhyw gyfarfod a bennir yn y rhybudd a gyflwynir dan baragraff (i) y Cymal hwn, yn cydweithredu'n llawn mewn unrhyw archwiliad a thrafodaeth, ac yn datgelu'n llawn unrhyw wybodaeth berthnasol a ofynnir amdani, a bydd methiant ar ran y Cynhyrchydd i wneud hynny yn doramod sylweddol o'r Cytundeb hwn gan y Cynhyrchydd;
- (iv) os yw S4C yn rhesymol o'r farn yn dilyn cyfarfod o'r fath na fydd y Cynhyrchydd yn cwblhau'r Rhaglen o fewn y Gyllideb, yna bydd gan S4C yr hawl (wedi iddi roi cyfle i'r Cynhyrchydd gynnig ei wrthddadleuon) yn ôl ei disgresiwn i :-
  - (1) fynnu newidiadau yn y Rhaglen fel y gellir cwblhau'r Rhaglen o fewn y Gyllideb; a/neu
  - (2) awdurdodi Cyllideb ddiwygiedig; a/neu
  - (3) onibai bo'r Gorwariant wedi deillio'n amlwg o ganlyniad uniongyrchol i dorri ar y Cytundeb hwn gan S4C neu i achos o Force Majeure sydd wedi ei hysbysu i S4C yn unol â Chymal 8.5, fynnu bod y Cynhyrchydd yn sicrhau arian ychwanegol i gwblhau'r Rhaglen; a'r arian ychwanegol hwnnw i ddod:
    - a. allan o unrhyw Ffi Gynhyrchu sy'n daladwy neu a dalwyd i'r Cynhyrchydd, ac yna;
    - b. allan o adnoddau'r Cynhyrchydd ei hun; neu
  - (4) (ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir yng Nghymal 4.25) yn ôl ei disgresiwn llwyr i derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith.

4.25 Ni fydd S4C yn dal yn ôl taliad o dan Gymal 4.24.2 (ii) nac yn mynnu bod y Cynhyrchydd yn sicrhau arian ychwanegol o dan Gymal 4.24.2 (iv) (3) nac yn terfynu'r Cytundeb hwn o dan Gymal 4.24.2 (iv) (4) mewn perthynas ag unrhyw Orwariant y mae S4C yn atebol i'w dalu o dan Gymal 2.11; neu mewn sefyllfa lle bod S4C wedi ei bodloni yn ôl ei disgresiwn llwyr y gellir diwallu'r fath Orwariant neu Orwariant tebygol allan o danwariant yn rhan arall o'r Gyllideb (ond nid allan o gostau'r Elfennau Allweddol a glustnodwyd yn y Gyllideb ar gyfer y Rhaglen) heb effeithio'n andwyol ym marn lwy'r S4C ar ansawdd ar sgrin y Rhaglen.

4.26 Ni fydd darpariaethau Cymalau 4.23, 4.24 a 4.25 yn amharu ar unrhyw hawliau eraill sydd gan S4C os digwydd unrhyw Orwario neu Orwario tebygol oherwydd i'r Cynhyrchydd dorri'r Cytundeb hwn.



## Tanwariant

4.27 **Os bydd Tanwariant yn codi o ran gwariant ar yr Elfennau Allweddol, yna bydd gweddill swm costau'r Elfennau Allweddol a gyllidwyd sydd heb ei wario ar yr Elfennau Allweddol yn cael ei gadw gan S4C neu ei ad-dalu ar unwaith i S4C, oni bai bo S4C yn cytuno yn ysgrifenedig y caiff ei drin yn unol â gweddill darpariaethau'r Cymal 4.27 hwn.** Os bydd yr archwiliad manwl o'r datganiad o'r gost derfynol y cyfeirir ato yng Nghymal 4.20 yn dangos bod cyfanswm y Gwir Gostau (ac eithrio costau'r Elfennau Allweddol oni bai bo S4C yn cytuno fel arall fel y nodir uchod) yn llai na chyfanswm y Gyllideb (ac eithrio costau'r Elfennau Allweddol a gyllidwyd oni bai bo S4C yn cytuno fel arall fel y nodir uchod), yna, yn ddarostyngedig i Gymal 4.28, caiff y Tanwariant ei ddefnyddio fel a ganlyn:

4.27.1 i dalu am y fath welliannau i'r Rhaglen ag a awdurdodwyd gan adran Materion Busnes S4C mewn rhybudd ysgrifenedig o flaen llaw;

4.27.2 wedyn (os yn berthnasol) i dalu am gynhyrchu'r fath raglenni neu ddeunydd arall neu ychwanegol ag y mae adran Materion Busnes S4C a'r Cynhyrchydd yn cytuno iddynt yn ysgrifenedig. Os na fydd adran Materion Busnes S4C a'r Cynhyrchydd wedi dod i gytundeb am hyn erbyn diwedd y cyfnod o un (1) mis wedi i S4C naill ai dderbyn yr adroddiad cost derfynol oddi wrth y Cynhyrchydd neu gwblhau archwiliad manwl (lle dymuna S4C ymarfer ei hawl i gynnal archwiliad manwl), pa bynnag yw'r hwyr, yna caiff y Tanwariant ei rannu yn gyfartal rhwng S4C a'r Cynhyrchydd ond yn ddarostyngedig i unrhyw nenfwd neu uchafswm o ran cyfran y Cynhyrchydd a bennir yn yr Amodau Arbennig yn Atodlen 3.

4.28 Bydd trin unrhyw Danwariant yn unol â Chymal 4.27 yn amodol ar arwyddo unrhyw ddogfennau ychwanegol y mae S4C yn eu hystyried yn angenrheidiol. Os yw S4C o'r farn bod unrhyw Danwariant wedi deillio o or-gyllidebu neu o newidiadau yn y cyfraddau cyfnewid arian neu ar draul ansawdd y Rhaglen (boed yn dechnegol neu yn olygyddol) neu am y rheswm nad oedd angen defnyddio unrhyw lwfans neu gronfa wrth gefn o fewn y Gyllideb, yna gall S4C yn ôl ei disgresiwn llwyr gadw neu fynnu addaliad o'r fath Danwariant yn ei gyfanrwydd.

## Propiau a Setiau

4.29 Ar ôl cwblhau'r Rhaglen, bydd y Cynhyrchydd yn dilyn cyfarwyddiadau S4C o ran storio a/neu ddatgymalu a/neu waredu propiau, setiau ac eitemau (gan gynnwys fel enghraifft yn unig wisgoedd, cyfarpar technegol a cherbydau) y mae S4C wedi talu am eu prynu neu eu gwneud. Lle nad yw S4C medru trefnu adnoddau storio ar gyfer propiau, setiau ac eitemau'r Rhaglen, bydd S4C yn talu'r gost a gytunwyd o flaen llaw o storio, datgymalu neu waredu (fel ag sy'n addas) y propiau, setiau ac eitemau. Bydd y Cynhyrchydd yn darparu unrhyw amcangyfrifon o gost storio neu waredu setiau y bydd S4C yn eu mynnu yn rhesymol. Ni fydd y Cynhyrchydd yn cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â phropiau, setiau ac eitemau'r Rhaglen heb ganiatâd ymlaen llaw S4C.

4.30 Wrth gyfleu'r propiau, setiau ac eitemau i'r stordy, bydd y Cynhyrchydd yn paratoi rhestr gyflawn a chywir o'r holl bropiau, setiau ac eitemau o'r fath

ynghyd â manylion am y symiau a dalwyd yn wirioneddol gan y Cynhyrchydd am bob prop, set ac eitem ar y rhestr ac yn ei danfon at S4C. Lle nad yw'r propiau, setiau ac eitemau yn cael eu cadw yn y stordai a ddarperir gan S4C i'r perwyl hyn, bydd y Cynhyrchydd yn ddi-oed ar gais S4C yn trefnu bod gan S4C y fath hawl o fynediad i'r man lle caiff unrhyw bropiau, setiau ac eitemau o'r fath eu storio ag a fyynnir gan S4C er mwyn eu harchwilio.

- 4.31 Os digwydd y bydd yr enillion sy'n deillio o waredu unrhyw brop, set neu eitem y cyfeirir ati yng Nghymal 4.29 yn fwy na chostau datgymalu a gwaredu'r cyfryw eitem, yna bydd y Cynhyrchydd yn talu'r gwahaniaeth i S4C o fewn saith (7) niwrnod i'w dderbyn.

#### Hyfforddi

- 4.32 Pan nodir yn y Briff Golygyddol a Busnes bod y Cynhyrchydd yn dymuno defnyddio gwasanaethau'r Cynllun Hyfforddi a chyfrannu 5% (pump y cant) o'r Ffi Gynhyrchu i'r Cynllun Hyfforddi, bydd S4C yn didynnu'r cyfraniad o'r rhandaliad olaf o'r Ffi Gynhyrchu, a'i dalu yn uniongyrchol i gronfa'r Cynllun Hyfforddi ar ran y Cynhyrchydd.
- 4.33 Pan na fydd y Cynhyrchydd yn cyfrannu at y Cynllun Hyfforddi, gofynnir iddo gadarnhau hyn yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros ei benderfyniad i beidio cyfrannu. Pan fo'r Cynhyrchydd yn aelod o TAC, bydd S4C yn rhoi copi i TAC.

### **Adran 5 - Perchnogaeth, Defnydd ac Ymelwa ar y Rhaglen**

#### Perchnogaeth a Hawlfraint

Mae'r Cymalau 5.1 i 5.4 (yn gynwysedig) a Chymal 5.8, isod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau arbennig a nodir yn y Cadarnhad Hawliau.

- 5.1 O ran y berthynas rhwng S4C a'r Cynhyrchydd, bydd perchnogaeth a'r hawlfraint yn y Rhaglen yn berchen yn llwyr i S4C ac, yn ddarostyngedig i Gymalau 2.15 i 2.22 yn gynwysedig, bydd y cyfan o'r canlynol yn berchen yn llwyr i S4C fel comisiynydd y Rhaglen:
- 5.1.1 yr hawlfraint a'r teitl yn y Rhaglen a phob rhan ohoni yn llun a sain (ond heb gynnwys unrhyw Ddeunydd Trydydd Partïon) ac unrhyw elfennau rhyngweithiol (os o gwbl);
  - 5.1.2 yr hawl i gynhyrchu'r Rhaglen (fel isafswm) ac, oni bod adran Materion Busnes S4C wedi cytuno fel arall, yr hawlfraint yn y driniaeth ac unrhyw a phob sgript y seilir y Rhaglen arnynt (gan gynnwys pob drafft ohonynt);
  - 5.1.3 yr hawlfraint a'r teitl yn y Copi Darlledu a phob copi ohono;
  - 5.1.4 yr hawlfraint a'r teitl yn yr holl Ddeunydd y Rhaglen;
  - 5.1.5 yr hawlfraint a'r teitl yn y gerddoriaeth a'r holl hawliau cyhoeddi yn yr holl gerddoriaeth a gomisiynir gan y Cynhyrchydd ar gyfer y Rhaglen;
  - 5.1.6 y budd yn unrhyw a phob hawl cyfreitha sy'n deillio o'r holl gytundebau a arwyddwyd gan y Cynhyrchydd parthed y Rhaglen;
  - 5.1.7 yr hawlfraint a'r teitl yn yr holl ddeunyddiau y cyfeirir atynt yng Nghymal 4.29 sydd wedi eu dylunio at ddibenion y Rhaglen ac y mae hawlfraint wedi ei freinio ynddynt.

- 5.2 Breinir perchnogaeth a theitl yn yr holl Ddeunydd y Rhaglen a'r holl ddeunyddiau corfforol a grëwyd mewn perthynas â'r Rhaglen yn S4C yn llwyr yn ddiamedod a ddilyffethair yn syth wedi eu creu. Mae S4C drwy hyn yn rhoi i'r Cynhyrchydd yr hawl drwy gydol cyfnod cynhyrchu'r Rhaglen (ond ar yr amod na therfynir y Cytundeb hwn yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd yn gynnar) i ddefnyddio'r fath ddeunyddiau at ddiben cyflawni oblygiadau'r Cynhyrchydd dan y Cytundeb hwn.
- 5.3 Y mae'r Cynhyrchydd gyda theitl llawn wedi ei warantu trwy hyn yn aseinio'n ddi-alw'n-ôl i S4C yr holl hawlfraint a phob hawl, teitl a diddordeb arall o ba natur bynnag, boed wedi'i freinio yn llwyr neu'n amodol yn awr neu yn y dyfodol, yn ac i'r holl ddeunyddiau ac eiddo y cyfeirir atynt yng Nghymal 5.1 gan gynnwys heb gyfyngiad buddiannau unigolion fel awduron y Rhaglen a'r Deunydd y Rhaglen, holl hawliau'r perfformwyr yn eu perfformiadau gan gynnwys yr hawl rhentu a benthyg, pob hawl cyfathrebu â'r cyhoedd trwy loeren a hawliau ailddarlledu cebl, hawliau cyfarwyddwr neu gyfarwyddwyr y Rhaglen fel cydberchennog yr hawlfraint yn y Rhaglen, a'r holl hawliau atodol ac ategol ar sail aseiniad o'r hawlfraint sy'n bodoli eisoes neu a grëir yn y dyfodol I DDAL y cyfryw i S4C yn llwyr ledled y byd, am gyfnod llawn yr hawlfraint, boed yn bodoli eisoes neu a feddiennir yn y dyfodol a phob rifersiwn, adnewyddiad ac estyniad ohono, ac wedi hynny (i'r fath raddau ag y gall y Cynhyrchydd wneud hynny) am byth.
- 5.4 Mae'r Cynhyrchydd yn cadarnhau (yng nghyd-destun y berthynas rhwng y Cynhyrchydd ac S4C yn unig) mai gan S4C yn unig fydd yr hawl ecsgliwsif i'r holl hawliau marsiandiaeth ac ategol a all fod ar gael yn y Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen gan gynnwys (ond heb gyfyngiad) yr hawl i ddefnyddio teitl y Rhaglen, fformat y Rhaglen, y cymeriadau, golygfeydd, dyluniadau, digwyddiadau ac eitemau sy'n ymddangos ynddi, a'r holl ddeunyddiau eraill o'r Rhaglen a/neu o'r Deunydd y Rhaglen mewn cysylltiad â phob math o nwyddau a gwasanaethau ac i ymgeisio am unrhyw nôd masnach neu hawliau dyluniad neu unrhyw ddulliau eraill o ddiogelu hawliau a fo ar gael mewn unrhyw wlad yn y byd, a'u cofrestru yn enw S4C (neu fel arall fel y bo S4C yn barnu'n hwylus).
- 5.5 Mae'r Cynhyrchydd yn ddi-alw'n-ôl ac yn ddiamedod yn rhoi ac yn cadarnhau'r canlynol i S4C, ei hollynwyr, aseineion a'i thrwyddedeion:
- 5.5.1 bod pob person perthnasol yn aseinio a rhoi pob hawl a chaniatâd yn sgil y Ddeddf a phob deddf arall sydd yn awr neu a fydd yn y dyfodol mewn grym mewn unrhyw ran o'r byd y gall fod eu hangen er mwyn Ymelwa ar y Rhaglen ac ar Ddeunydd y Rhaglen berthnasol (ac unrhyw addasiadau ar y naill neu'r llall) gan gynnwys heb gyfyngiad holl hawliau perchen y perfformwyr gan gynnwys yr hawl rhentu a benthyg a'r hawl i wneud ar gael (fel y diffinnir y termau hyn yn y Ddeddf), pob hawl cyfathrebu â'r cyhoedd trwy loeren a hawliau ailddarlledu cebl ac, yn achos cyfarwyddwr neu gyfarwyddwyr y Rhaglen, aseiniad gan bob un ohonynt o'i holl hawliau, teitl a diddordeb yn yr hawlfraint yn ac i'r Rhaglen;
- 5.5.2 bod pob awdur sgript neu amlinelliad stori neu driniaeth neu ddeialog a phob cyfansoddwr unrhyw gerddoriaeth wreiddiol ar gyfer y Rhaglen wedi neu yn aseinio a throsglwyddo'r hawliau rhentu a benthyg yn eu gwaith a chynnyrch eu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r Rhaglen i'r Cynhyrchydd, ei hollynwyr, aseineion

a'i thrwyddedeion am gyfnod llawn y cyfryw hawliau y gall y personau hyn fod â'r hawl i'w haseinio yn unrhyw ran o'r byd a bod pob cyfrannwr arall i'r Rhaglen yn cydnabod yn cytuno a chadarnhau bod y rhagdybiaethau a gynhwysir yn Adrannau 93A a 191F y Ddeddf yn weithredol parthed eu cyfraniadau a bod pob cyfrannwr i'r Rhaglen (gan gynnwys ond heb gyfyngiad pob awdur a chyfansoddwr) yn cydnabod a chadarnhau bod y tâl a delir iddynt gan y Cynhyrchydd yn 'dâl ecwitiol' ('equitable remuneration') am yr holl hawliau a roddir ganddynt i'r Cynhyrchydd mewn perthynas â'r Rhaglen gan gynnwys yr hawliau rhentu a benthyg yn eu cyfraniadau;

- 5.5.3 bod yr holl bersonél cynhyrchu perthnasol a phob artist yn ildio yn ddi-arlw'n-ôl a diamod pob hawl mewn perthynas â'r Rhaglen a Deunydd y Rhaglen y mae gan y cyfryw rai yn awr neu y gall fod ganddynt yn y dyfodol hawl iddynt yn sgil darpariaethau Adrannau 77, 80, 84 ac 85 y Ddeddf ac unrhyw hawliau moesol eraill y gall y personau hyn fod â hawl iddynt dan unrhyw ddeddfwriaeth sy'n bodoli yn awr neu a all ddod i rym yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd;
  - 5.5.4 yr hawl i ddefnyddio enw tebygrwydd gweledol a bywgraffiad yr holl bersonau sy'n cyfrannu at y Rhaglen a Deunydd y Rhaglen er mwyn Ymelwa ar y Rhaglen a Deunydd y Rhaglen a'u hysbysebu ac mewn cyhoeddusrwydd corfforaethol; a
  - 5.5.5 bod pob person sy'n cyfrannu at y Rhaglen a Deunydd y Rhaglen yn cadarnhau mewn ysgrifen y bydd ac y gellir ystyried bod eu cyfraniadau at ddibenion Deddf Hawlfraint 1976 (UDA) yn 'weithiau ar log' ('works for hire') a wneir i'r Cynhyrchydd ac yr ystyrir y Cynhyrchydd yn awdur y cyfryw at bob diben a'r Cynhyrchydd hefyd fydd unig berchennog ecsgliwsif pob hawl yn neu i'w cyfraniadau.
- 5.6 Gan S4C ac S4C yn unig (o ran y berthynas rhwng S4C a'r Cynhyrchydd) y bydd yr hawl ecsgliwsif i gofrestru'r hawlfraint yn y Rhaglen a'r eiddo arall y cyfeirir ato yng Nghymal 5.1 yn enw S4C neu fel arall os myn, ac i gymryd ar gost S4C unrhyw gamau y bydd S4C yn ôl ei disgresiwn yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol er mwyn sicrhau perffeithio neu Ymelwa ar yr hawliau a roddwyd i S4C dan y Cytundeb hwn neu i atal unrhyw dresmasu sy'n digwydd neu a fwriedir yn erbyn y cyfryw hawliau.
  - 5.7 Gan S4C ac S4C yn unig (o ran y berthynas rhwng S4C a'r Cynhyrchydd) fydd yr hawl ecsgliwsif i gychwyn a chynnal unrhyw a phob achos neu gyfreithiadau y bydd S4C yn ôl ei disgresiwn llwyr ei hun yn ystyried bod eu hangen er mwyn sefydlu, cynnal neu gadw unrhyw un o hawliau S4C heb fod hynny'n amharu ar hawl S4C i ddwyn y Cynhyrchydd fel pleintydd i mewn i unrhyw achos o'r fath, ac mae'r Cynhyrchydd yn cadarnhau na fydd ganddo hawl teitl na budd mewn unrhyw arian a adenillir gan S4C yn sgil unrhyw achos neu gyfreitha o'r fath. Bydd S4C yn indemnio'r Cynhyrchydd yn erbyn y ffioedd, costau a threuliau rhesymol a ddiodesdefir gan y Cynhyrchydd o ganlyniad i S4C ddwyn y Cynhyrchydd i mewn i unrhyw achos o'r fath fel pleintydd, AR YR AMOD na fydd yr indemniad hwn yn weithredol lle y bo S4C wedi gweithredu ei hawliau o dan y Cytundeb hwn yn llwyr ac yn uniongyrchol oherwydd rhyw dor-cytundeb neu esgeulustod ar ran y Cynhyrchydd pan fydd y Cynhyrchydd yn ysgwyddo costau ei hun.

- 5.8 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu mai'r Cynhyrchydd a'r Cynhyrchydd yn unig yw neu bydd erbyn y Dyddiad Cyfleu neu ddyddiad creu'r deunyddiau y cyfeirir atynt yng Nghymal 5.1 unig berchennog ecsgliwsif, dilyffethair, cyfreithiol a llesiannol yr holl hawliau hawlfraint a phob hawl arall a roddir trwy hyn i S4C parthed yr eitemau y cyfeiriwyd atynt yng Nghymal 5.1, ac eithrio'r Deunydd Trydydd Partïon.
- 5.9 At ddibenion Ymelwa a/neu ddarlledu ar Wasanaethau S4C bydd gan S4C yr hawl yn ôl ei disgresiwn i ail-olygu neu i addasu'r Rhaglen neu i hepgor unrhyw ran ohoni neu i ddefnyddio darnau o'r Rhaglen ar gyfer eu darlledu'n unigol ac ar wahân neu fel rhan o raglen arall ond yn ddarostyngedig i dalu'r Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau gan S4C fel y'u hysbysir i S4C gan y Cynhyrchydd wrth Gyfleu.
- 5.10 At ddibenion darlledu ac Ymelwa, bydd gan S4C yr hawl i drosleisio neu i is-deitlo'r Rhaglen i ieithoedd eraill.
- 5.11 At ddibenion Ymelwa, bydd gan S4C yr hawl i ddefnyddio ac i awdurdodi eraill i ddefnyddio'r Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen ac unrhyw ran neu rannau ohoni yn y fath fodd ag y mae S4C yn ei disgresiwn llwyr yn ystyried yn addas, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r hawl i wneud newidiadau, diwygiadau, amnewidiadau ac ychwanegiadau iddi ac i ddileu darnau ohoni ac i wneud addasiadau, ad-drefniadau a chyfieithiadau ohoni i unrhyw a phob iaith.
- 5.12 Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i wneud unrhyw a phob gweithred a chyflawni unrhyw a phob dogfen yn y fath fodd ac yn y fath leoliadau ag y bo S4C yn ôl ei disgresiwn ei hun yn unig eu mynnu yn rhesymol er mwyn amddiffyn, perffeithio neu weithredu unrhyw rai o'r hawliau a roddwyd neu a gadarnhawyd i S4C yn sgil y Cytundeb hwn AR YR AMOD y bydd S4C yn ad-dalu costau rhesymol gwneud hynny i'r Cynhyrchydd. Bydd yn rhesymol (heb gyfyngiad) i S4C fynnu bod y Cynhyrchydd yn cyflawni rhyw weithred lle bo'r fath weithred yn angenrheidiol er mwyn perffeithio teitl S4C at ddiben ymglyfreitha bosib.

### Ymelwa

- 5.13 Oni chytunir yn wahanol, fe fydd gan S4C neu ei drwyddedeion yr hawl i Ymelwa ar y Rhaglen a Deunydd y Rhaglen a phob rhan ohonynt ar sail fasnachol ledled y byd ar yr amod yn unig fod y graddfeydd comisiwn sy'n daladwy iddo ac i'w asiantau gwerthu a dosbarthwyr yn gyson â'r hyn sy'n arferol yn y diwydiant.
- 5.14 Cyn belled nad yw'r Cytundeb hwn wedi ei derfynu gan S4C oherwydd unrhyw dor-gytundeb gan y Cynhyrchydd neu am y rheswm bod y Cynhyrchydd yn ansolfent neu wedi ei effeithio gan gyflwr tebyg, bydd gan y Cynhyrchydd yr hawl i dderbyn cyfran o'r Enillion Net a dderbynnir o Ymelwa fel y nodir yn y Cadarnhad Hawliau.
- 5.15 Bydd unrhyw arian sy'n daladwy i'r Cynhyrchydd yn unol â Chymal 5.14 yn cael ei dalu o fewn chwe deg (60) diwrnod i ddiwedd y Chwarter pan dderbyniwyd yr arian gan S4C.
- 5.16 Bydd S4C neu ei drwyddedeion yn danfon i'r Cynhyrchydd o fewn chwedeg (60) diwrnod i ddiwedd pob Chwarter ddatganiad o'r Enillion Net (os o gwbl) sy'n daladwy i'r Cynhyrchydd parthed y Chwarter hwnnw. Os nag

oes unrhyw symiau yn ddyledus i'r Cynhyrchydd mewn perthynas ag unrhyw Chwarter, ni fydd unrhyw ddyletswydd ar S4C neu ei drwyddedeion i ddanfon datganiad i'r Cynhyrchydd parthed y Chwarter hwnnw a bydd S4C neu ei drwyddedeion yn hysbysu'r Cynhyrchydd na fydd yn danfon unrhyw ddatganiadau pellach hyd nes wedi'r Chwarter nesaf (os o gwbl) pan yr enillir Enillion Net. Bydd gan y Cynhyrchydd a'i gynrychiolwyr a/neu'r cyfrifwyr a benodwyd gan y Cynhyrchydd yr hawl i archwilio holl lyfrau cyfrifon perthnasol S4C a/neu ei drwyddedeion, a bydd ganddo'r hawl i ofyn am archwiliad manwl (ar ei gost ei hun) o'r cyfrifon hynny yn ystod oriau busnes arferol S4C, a hynny wedi rhoi rhybudd rhesymol. Lle bo'r fath archwiliad neu archwiliad manwl yn datgelu bod unrhyw daliad wedi bod yn rhy isel o dros ddeg (10%) y cant, yna bydd S4C neu ei drwyddedeion yn talu'r treuliau proffesiynol rhesymol a ddioddefwyd gan y Cynhyrchydd wrth gyflawni'r fath archwiliad neu archwiliad manwl.

### Llyfrgell Ffilm

- 5.17 Yn ddarostyngedig i unrhyw Daliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau a all fod yn ddyledus, bydd gan S4C yr hawl i Ymelwa drwy ddefnyddio unrhyw a phob dull a modd, mewn unrhyw a phob cyfrwng a hynny am holl gyfnod oes yr hawlfraint ar unrhyw a phob ailolygiad, trac cerddoriaeth, trac dialog, trac effeithiau sain ac unrhyw ddeunydd sain, ffilm neu ddeunydd arall sy'n weddill o unrhyw ddisgrifiad a saethwyd neu a wnaed ar gyfer y Rhaglen heb dalu mwy i'r Cynhyrchydd, nac i'r unigolion a gyfrannodd at y cynhyrchiad.

### **Adran 6 - Ymrwymadau a Gwarantau**

- 6.1 Mae'r Cynhyrchydd yn datgan, yn gwarantu, yn gwarantebu ac yn ymrwymo ag S4C yn y fath fodd ag y bydd i'r cyfryw ddatganiadau, gwarantau, gwarantebau ac ymrwymadau (boed dan y Cymal hwn neu mewn mannau eraill yn y Cytundeb hwn) yn barhau (ac eithrio'r gwarantau a gynhwysir yn Is-Gymalau 6.1.3 a 6.1.4) i fod mewn grym a bod ag effaith lawn wedi Cyfleu'r Rhaglen:
- 6.1.1 y gwneir ac y cynhyrchir y Rhaglen a'r holl ddeunyddiau i'w cyfleu y cyfeirir atynt yng Nghymal 3 i'r safon ddramatig ac artistig uchaf o ran cynnwys ac i safon dechnegol a llun yn addas i'w darlledu ar deledu heb orfod gwario mwy na gwneud gwaith pellach arnynt ac yn unol â Chanllawiau Cydymffurfiaeth S4C;
  - 6.1.2 bod y Cynhyrchydd yn derbyn mai'r Cynhyrchydd yn unig sy'n gyfrifol am faint a digonolrwydd y Gyllideb, sy'n cynrychioli amcangyfrif realistig a llawn o'r holl wariant sy'n debygol o ddigwydd wrth wneud y Rhaglen ac wrth sicrhau'r holl hawliau sy'n ofynnol o dan y Cytundeb hwn;
  - 6.1.3 y bydd y Cynhyrchydd yn cynhyrchu'r Rhaglen yn unol â'r Briff Golygyddol a Busnes, yr Amodau Arbennig, ac na fydd manylion y Rhaglen yn cael eu newid gan y Cynhyrchydd heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig S4C;
  - 6.1.4 na fydd y Cynhyrchydd, heb ganiatâd ysgrifenedig S4C (na fydd S4C yn oedi nac yn gwrthod ei roi yn afresymol), yn eilyddio unrhyw berson neu leoliad, nac yn gwaredu na newid unrhyw

Bersonél Allweddol na lleoliad a nodir yn y Brîff Golygyddol a Busnes, y mae'r Cynhyrchydd ac S4C drwy hyn yn cytuno eu bod yn hanfodol i wneuthuriad y Rhaglen ac yn anhepgor at bwrpas y Cytundeb hwn;

- 6.1.5 na fydd dim a gynhwysir yn y Rhaglen na'r Deunydd y Rhaglen yn tarfu ar unrhyw hawliau confensiwn fel y'u diffinnir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 ("Hawliau'r Confensiwn") unrhyw unigolyn nac yn tresmasu ar unrhyw hawlfraint, nod masnachu, hawl preifatrwydd, hawl cyhoeddusrwydd nac unrhyw hawl arall o unrhyw fath arall sy'n perthyn i unrhyw berson, ac na fydd yn anllad nac yn enllibus, nac yn gabledus nac yn absennus, nac yn torri darpariaethau unrhyw statudau, rheolau neu orchmynion nac yn torri ar y canllawiau a gynhwysir yng Nghanllawiau Cydymffurfiaeth S4C (gan gynnwys ond heb gyfyngiad y canllawiau a gyhoeddir o dro i dro gan S4C sy'n ymwneud â hybu cyfleoedd cyfartal a thriniaeth deg);
- 6.1.6 wrth gyflawni ei oblygiadau o dan y Cytundeb hwn, bydd y Cynhyrchydd ar bob adeg yn cymryd ystyriaeth o Hawliau'r Confensiwn pob trydydd parti, ac ni fydd y Cynhyrchydd yn gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws ag unrhyw un o Hawliau'r Confensiwn unrhyw drydydd parti;
- 6.1.7 , y bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau'r holl hawliau sydd eu hangen er mwyn galluogi S4C i Ymelwa ar y Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen, yn rhydd rhag unrhyw a phob lien, cais a llyffethair ond yn ddarostyngedig yn unig i dalu'r Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau ac i hawliau'r MCPS, y PRS a'r PPL yn achos y gerddoriaeth a'r telynegion a gynhwysir yn y Rhaglen;
- 6.1.8 y Cynhyrchydd yw neu bydd yr unig berson sydd wedi gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu'r Rhaglen ac y bydd y Cynhyrchydd a'r prif gyfarwyddwr ar y naill law yn 'bersonau cymwys' ar bob adeg briodol yn ystod cyfnod cynhyrchu'r Rhaglen o fewn ystyr Adran 154 y Ddeddf a bod y prif gyfarwyddwr wedi aseiniu ei holl fudd yn yr hawlfraint yn ac i'r Rhaglen a Deunydd y Rhaglen i'r Cynhyrchydd yn rhydd o bob llyffethair;
- 6.1.9 cyn dyddiad y Cytundeb hwn, na fu ac wedi dyddiad y Cytundeb hwn ni fydd unrhyw ddealltwriaeth, aseiniad na thrwydded sy'n rhwymo'r Cynhyrchydd i ddefnyddio'r Rhaglen a'r Deunydd y Rhaglen neu unrhyw ran ohonynt boed drwy ddarllediad teledu neu drwy unrhyw fodd arall;
- 6.1.10 nad oes unrhyw lien, cais, achos na chyfreithiad yn yr arfaeth neu wedi'u bygwth sydd yn effeithio ar neu'n berthnasol i'r Rhaglen neu Ddeunydd y Rhaglen nac unrhyw Gopi Darlledu na'r hawliau a roir yn y Cytundeb hwn na theitl gwirioneddol neu weithredol y Rhaglen;
- 6.1.11 ni fydd y Cynhyrchydd yn gwystlo nac yn llyffetheirio mewn unrhyw ffordd arall y Rhaglen na Deunydd y Rhaglen nac unrhyw ddeunydd arall sy'n gysylltiedig â'r naill na'r llall, nac yn creu unrhyw lien dros y Rhaglen ar wahân i'r hyn sy'n digwydd yng nghwrs arferol busnes;

6.1.12 y bydd y Cynhyrchydd yn bwrw iddi i wneud y Rhaglen yn ddyfal, a heb oedi'n afresymol, gan dalu sylw i'r Dyddiad Cyfleu a safon y gwaith sy'n ofynnol o dan holl ddarpariaethau eraill y Cytundeb hwn; ac

6.1.13 wrth gyflawni ei oblygiadau o dan y Cytundeb hwn, bydd y Cynhyrchydd wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn parchu a chydymffurfio â'r egwyddorion yng Nghynllun Iaith S4C ac mae'r Cynhyrchydd yn cadarnhau ei fod wedi ei ddarllen a'i ddeall.

### Dirmyg Llys

6.2 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu na fydd y Rhaglen yn Ddirmyg Llys dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981 (y cyfeirir ati fel "Deddf 1981" yn y Cymal hwn). Os bydd achos o Ddirmyg Llys yn cael ei ddwyn dan Ddeddf 1981 yn erbyn S4C, ei swyddogion, gweision neu asiantau neu aelodau S4C, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol allai fod yn ei feddiant, neu a fydd o fewn ei rym a'i reolaeth ar gael ar unwaith i S4C at ddiben ymdrin ag achos o'r fath, cyn belled nad oes gorfodaeth ar y Cynhyrchydd i fynnu bod unrhyw un o'i weithwyr yn datgelu ffynonellau gwybodaeth heblaw ac i'r graddau y darperir ar gyfer hynny yn Neddf 1981, ac yn dilyn gorchymyn dan Ddeddf 1981.

### Cyfyngiadau ar Warantau

6.3 Ni fydd y Cynhyrchydd yn atebol dan y gwarantau, y gwarantebau a'r ymrwymadau sydd yng Nghymalau 6.1.1 a 6.1.5 mewn perthynas â'r Rhaglen neu'r Deunydd y Rhaglen i'r graddau yr effeithiwyd ar y Rhaglen neu Ddeunydd y Rhaglen gan unrhyw olygu, ail-becynnu, newid neu addasu ar ôl ei Chyfleu fel bod y cyfryw warantau, gwarantebau ac ymrwymadau'n anghywir neu'n anwir mewn perthynas â'r Rhaglen a/neu'r Deunydd y Rhaglen hynny, AR YR AMOD NA fydd y cyfyngiad yn y Cymal 6.3 hwn yn cael unrhyw effaith lle bydd unrhyw olygu, ail-becynnu, newid neu addasu wedi'r Cyfleu yn cael ei wneud gan y Cynhyrchydd neu gan rywun a enwebir ganddo ac eithrio lle bod hynny wedi ei wneud yn unol â chais penodol ysgrifenedig S4C. Os yw'r Cynhyrchydd o'r farn y byddai unrhyw olygu, ail becynnu, newid neu addasu a fynnir gan S4C, pe cyflawnir, yn peri bod y gwarantau, gwarantebau ac ymrwymadau ar ran y Cynhyrchydd o dan Gymalau 6.1.1 neu 6.1.5 yn anghywir neu'n anwir, yna bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu S4C o hyn yn ysgrifenedig gan roi manylion llawn a manwl a bydd y Cynhyrchydd yn aros am gyfarwyddiadau pellach S4C. Os nad yw S4C yn newid ei gofynion er gwaethaf y fath rybudd, yna ni fydd y Cynhyrchydd yn atebol i S4C am unrhyw dorri ar Gymalau 6.1.1 neu 6.1.5 sy'n deillio'n uniongyrchol o unrhyw elfen benodol o olygu, ail becynnu, newid neu addasu y mae wedi tynnu sylw S4C iddi yn unol â'r Cymal hwn.

### Indemniad

6.4 Bydd y Cynhyrchydd yn rhoi indemniad llwyr i S4C ac yn sicrhau bod yr indemniad hwnnw'n aros mewn grym bob amser, rhag ac yn erbyn pob colled (gan gynnwys ond heb gyfyngiad unrhyw golli incwm neu golled economaidd), treuliau, cais, hawliad, achos, cyfreitha, cost, iawndal neu daliadau eraill a ddioddefir, fydd yn codi neu a ddyfernir ynghyd ag unrhyw iawndal y cytunir arno neu unrhyw atebolrwydd o ba bynnag natur neu o ble bynnag sy'n codi oherwydd bod y Cynhyrchydd wedi torri neu heb gadw at unrhyw un neu bob un o'r cytundebau, ymrwymadau neu



warantau a gynhwysir yn y Cytundeb hwn neu sy'n deillio mewn unrhyw ffordd o gynnwys llafar neu weladwy'r Rhaglen a/neu Ddeunydd y Rhaglen, neu o ganlyniad i unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu anghyfreithlon neu esgeulustod ar ran y Cynhyrchydd, neu un o'i weithwyr, asiantau, gweithwyr llawrydd, isgontractwyr, neu wahoddedigion gan gynnwys (ond nid fel cyfyngiad), hawliadau gan berchnogion hawliau, cyfranwyr i'r Rhaglen a/neu'r Deunydd y Rhaglen, ac unigolion a gyflogir gan y Cynhyrchydd ar gyfer gwneud y Rhaglen CYN BELLED:-

- 6.4.1 na fydd yr indemniad hwn yn berthnasol i faterion sy'n codi'n uniongyrchol oherwydd bod S4C wedi defnyddio'i rheolaeth olygyddol yn benodol, neu o ganlyniad i Gymal 5.9 uchod; ac
- 6.4.2 y bydd S4C yn hysbysu'r Cynhyrchydd yn gyson ynglŷn â datblygiad unrhyw achos neu hawliad (lle mai trydydd parti sy'n dwyn y fath achos neu hawliad) y mae'r Cynhyrchydd yn indemnio S4C rhagddo, a'i bod yn cytuno i ymgynghori â'r Cynhyrchydd ynglŷn ag unrhyw ddarpar gytundeb neu ildio gwirfoddol i ddyfarniad cyn i hynny ddigwydd.

#### Cwynion

- 6.5 Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod ac yn cytuno os yw'n derbyn cwyn mewn perthynas â'r Rhaglen, p'un ai gan gyfrannwr, aelod o'r cyhoedd neu fel arall ac os yw'r gŵyn yn digwydd yn ystod neu ar ôl cynhyrchiad y Rhaglen ai peidio, bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu'r Comisiynydd am y gŵyn yn syth ac yn darparu'r holl ohebiaeth sy'n berthnasol i'r gŵyn.
- 6.6 Ni fydd y Cynhyrchydd yn darparu ymateb i'r gŵyn heb gymeradwyaeth ysgrifenedig gan S4C o flaen llaw ac yn ymatal rhag ymateb lle fernir gan y Comisiynydd y mae'n briodol bod S4C yn ymateb yn uniongyrchol i'r gŵyn.
- 6.7 Mae'r Cynhyrchydd yn cytuno i gynorthwyo S4C hyd yr eithaf ei allu ac i ddarparu'r holl wybodaeth sydd ar gael er mwyn galluogi S4C i ymateb i'r gŵyn

#### **Adran 7 - Darpariaethau ar gyfer Terfynu'r Cytundeb**

##### Terfynu

Yn ddiragfarn i unrhyw hawliau eraill sydd gan y naill barti (sut bynnag y bônt yn codi), gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hawliau S4C o dan Gymal 6.4, gellir terfynu'r Cytundeb hwn:-

- 7.1 gan y naill barti os bydd y llall yn torri unrhyw un o'i ymrwymadau sylweddol o dan y Cytundeb hwn nad oes modd ei gywiro neu os oes modd ei gywiro nad yw'n cael ei gywiro o fewn saith (7) niwrnod (neu'r fath gyfnod hirach ag a gytunir gan y Comisiynydd) i'r sawl sydd ar fai dderbyn rhybudd ysgrifenedig oddi wrth y llall yn mynnu bod y tor-amod yn cael ei gywiro; neu
- 7.2 gan y naill barti os bydd y llall yn trosglwyddo gwaredu neu'n bygwth trosglwyddo neu waredu unrhyw ran o'i asedion a bod hynny ym marn resymol y parti sy'n terfynu yn debygol o rwystro neu lesteirio'r llall yn sylweddol rhag cyflawni ei ymrwymadau dan y Cytundeb hwn; neu

- 7.3 gan y naill barti os daw unrhyw ddyled, gwaranteb, atebolrwydd neu ymrwymiad tebyg ar ran y llall neu unrhyw warantebwr i'r llall neu unrhyw berson y mae'r llall wedi gwarantebu ei ddyletswyddau yn ddyledus neu os bydd modd iddo gael ei ddatgan yn ddyledus cyn y dyddiad y pennwyd y byddai'n daladwy neu os na chaiff ei dalu pan ddaw'n daladwy neu os bydd y llall neu unrhyw warantebwr i'r llall yn methu â chyflawni darpariaethau unrhyw waranteb neu ymrwymiad arall (i'w berfformio yn awr neu yn y dyfodol) mewn unrhyw gytundeb sy'n ymgorffori ac yn rhoi effaith i'r fath ddyled, gwaranteb neu ymrwymiad a lle bo'r cyfan neu unrhyw un ohonynt ym marn resymol y parti sy'n terfynu yn effeithio'n sylweddol ar ei hawliau a'i fuddiannau o dan y Cytundeb hwn; neu
- 7.4 gan y naill barti os dyfarnir y llall neu unrhyw warantebwr i'r llall neu unrhyw berson y mae'r llall wedi gwarantebu ei ddyletswyddau yn fethdalwr neu os aiff yn fethdalwr neu'n ansolfent neu os yw'n methu â talu ei ddyledion o fewn yr ystyr a roddir i'r ymadrodd hwn yn Adran 123 o'r Ddeddf Ansoffedd 1986; neu
- 7.5 gan y naill barti os bydd y llall neu unrhyw warantebwr i'r llall yn galw cyfarfod o'i gredydwy'r neu'n cynnig neu'n gwneud unrhyw drefniant neu gompownd â'i gredydwy'r neu unrhyw ddsbarthiad er eu budd neu os cyflwynir deiseb neu y trefnir cyfarfod at ddiben ystyried cynnig ffurfiol i ddirwyn y llall i ben neu os cymerir camau eraill i ddirwyn y llall i ben (ac eithrio at ddiben (ac a ddilynir gan) ad-drefnu neu gyfuno gwirfoddol a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan S4C neu'r Cynhyrchydd fel ag sy'n briodol) neu os bydd llyffetheiriwr yn cymryd meddiant o'r cyfan neu unrhyw ran o'i fusnes neu ei asedion neu os penodir ymddiriedolwr, derbynnydd, gweinyddydd, derbynnydd gweinyddol, datodwr neu swyddog tebyg mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw ran o'i fusnes neu ei asedion neu os atafaelir yn erbyn neu gorfodir neu gweithredir dyfarniad neu broses gyfreithiol arall yn erbyn unrhyw asedion o'r fath neu os bygythir y naill un ohonynt; neu
- 7.6 gan S4C os, bydd 'rheolaeth' o neu dros y Cynhyrchydd fel y'i diffinnir yn adran 1124 y Ddeddf Trethi Corfforaethol 2010 yn newid cyn y Cyfleu heb gymeradwyaeth ymlaen llaw S4C ac ym marn lwyr ond rhesymol S4C mae'r fath newid yn rheolaeth y Cynhyrchydd yn effeithio neu bydd yn effeithio ar allu'r Cynhyrchydd i Gyfleu'r Rhaglen yn unol â'r Cytundeb hwn; neu
- 7.7 gan S4C os, am ba reswm bynnag, na fydd unrhyw Berson Allweddol a nodir yn y Briff Golygyddol a Busnes ar gael neu os na ellir yn rhesymol eu defnyddio a bod y Cynhyrchydd yn methu â sicrhau eilydd arall derbynol i S4C; neu
- 7.8 gan S4C os yw Anghydfod Lleol yn atal y Cynhyrchydd rhag cyflawni unrhyw un neu fwy o'i oblygiadau dan y Cytundeb hwn; neu
- 7.9 gan S4C os bydd unrhyw amgylchiadau eraill yn codi pan fydd gan S4C yr hawl yn sgil Cymalau 2.42, 4.7, 4.24 neu 8.6 i derfynu'r cyfan neu unrhyw ran o'r Cytundeb hwn.

#### Canlyniadau Terfynu

- 7.10 Heb amharu ar hawliau cyfreithiol y partïon (ac eithrio unrhyw hawl sy'n groes i'r darpariaethau canlynol), bydd canlyniadau terfynu'r Cytundeb hwn fel y rhestrir isod.
- 7.11 Bydd unrhyw arian sydd ym meddiant y Cynhyrchydd er dibenion y Cytundeb hwn ar adeg y terfynu'n cael ei ad-dalu i S4C gan y Cynhyrchydd, ar gais S4C, a bydd y Cynhyrchydd yn cyflwyno i S4C ar unwaith ddatganiad manwl o'r incwm a'r gwariant hyd at ddyddiad y terfynu, ynghyd â manylion llawn am bob dyled sydd heb ei thalu, a phob ymrwymiad ariannol arall na dderbyniwyd anfoneb amdano eto.
- 7.12 Yn amodol ar Gymal 8.7, bydd cyfrifoldeb S4C i dalu i'r Cynhyrchydd wedi ei gyfyngu i daliadau am waith sydd wedi ei wneud mewn gwirionedd ac yn iawn gan y Cynhyrchydd wrth fodd rhesymol S4C, ynghyd ag unrhyw ymrwymiad i dalu trydydd parti a wnaed gan y Cynhyrchydd yn gywir yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn hyd at ddyddiad ei derfynu.
- 7.13 Bydd rhaid i'r Cynhyrchydd drosglwyddo holl rannau'r Rhaglen a'r Deunydd y Rhaglen sydd wedi'u cwblhau, a'r holl ddogfennau a deunyddiau a gynhyrchwyd hyd at ddyddiad terfynu'r Cytundeb i S4C ar gais S4C.
- 7.14 Heb amharu ar unrhyw rwymedi arall mewn perthynas ag unrhyw dor-cytundeb, bydd gan S4C yr hawl (ond ni fydd rhaid iddi wneud hynny), wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd, i gymryd y gwaith drosodd a chwblhau'r Rhaglen neu'r cyfryw bennod ohoni y mae S4C wedi terfynu'r Cytundeb hwn mewn perthynas â hi ac, er mwyn medru gwneud hynny, bydd gan S4C yr hawl i ddefnyddio'r holl eiddo materol, adnoddau, cyflenwadau, cyfarpar, dogfennau a deunyddiau sy'n berthnasol i'r Rhaglen, ac os digwydd hyn:-
- 7.14.1 bydd gan S4C yr hawl i gymryd cyfrifoldeb dros oruchwylio a rheoli gwneuthuriad y Rhaglen a/neu i benodi a rhoi cytundeb i unrhyw drydydd parti er mwyn cwblhau cynhyrchiad y Rhaglen;
- 7.14.2 bydd S4C yn cael ei phenodi ac fe'i penodir yn ddi-awl'n ôl yn asiant y Cynhyrchydd gyda disgresiwn llwyr a gyda grym y Cynhyrchydd ac ar ran y Cynhyrchydd i ymarfer neu i aseinio unrhyw hawl sy'n eiddo i'r Cynhyrchydd (boed dan gytundeb neu fel arall) sy'n berthnasol i wneuthuriad y Rhaglen ond nid at unrhyw ddiben arall;
- 7.14.3 ar gais S4C bydd y Cynhyrchydd yn cyflawni aseiniad ffurfiol yn trosglwyddo unrhyw fudd o dan y cytundebau a wnaed gan y Cynhyrchydd sy'n berthnasol i wneuthuriad y Rhaglen i S4C; bydd y Cynhyrchydd yn indemnio S4C yn llawn yn erbyn atebolrwydd sy'n codi o unrhyw dor-amod o unrhyw gytundeb o'r fath gan y Cynhyrchydd cyn y dyddiad cymryd drosodd. At ddibenion yr is-Gymal hwn ac is-Gymalau 7.14.4 a 7.14.5, ystyr "dyddiad cymryd drosodd" yw'r dyddiad y bydd S4C neu'r person a enwebir gan S4C yn cymryd drosodd yn gorfforol y gwaith cynhyrchu, ac nid dyddiad rhybuddio'r Cynhyrchydd o unrhyw fwriad i gymryd y gwaith drosodd;
- 7.14.4 mae S4C yn cytuno i indemnio'r Cynhyrchydd rhag unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o unrhyw weithred neu ddiffyg

gweithredu sy'n dwyllodrus neu yn esgeulus ar ran S4C wrth ddefnyddio hawliau cymryd drosodd S4C ac yn erbyn unrhyw atebolrwydd y gall y Cynhyrchydd ddiodeff mewn amgylchiadau lle bo S4C wedi cymryd drosodd y cynhyrchiad yn dilyn achos o Force Majeure. Nid yw'r cyfryw indemniad hwn yn ymestyn i atebolrwydd sy'n deillio o unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau oedd yn bodoli cyn y dyddiad cymryd drosodd neu ar y dyddiad hwnnw nac unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o ymlyniad gan S4C i delerau contractau yr ymrwymwyd iddynt gan y Cynhyrchydd cyn dyddiad cymryd drosodd neu ar y dyddiad hwnnw lle bydd y Cynhyrchydd parthed pob achos o'r fath yn indemnio S4C; a

7.14.5 bydd gan S4C yr hawl i ddefnyddio'r cyfleusterau a gytundebwyd gan y Cynhyrchydd cyn y dyddiad cymryd drosodd ar yr amod bod y Cynhyrchydd wedi aseinio'r cytundebau perthnasol i S4C ac ar yr amod nad yw'r cyfleusterau wedi eu tynnu yn ôl bellach am unrhyw reswm ac ar yr amod nad yw S4C yn medru sicrhau cyfleusterau rhatach o ffynhonnell arall.

7.15 Os bydd y Cytundeb yn cael ei derfynu yn dilyn tor-cytundeb gan y Cynhyrchydd, ac os bydd cynnydd yng nghyfanswm y gost i S4C o gwblhau'r Rhaglen yn unol â'r Briff Golygyddol a Busnes a'r Cytundeb hwn, yna bydd y Cynhyrchydd yn talu'r gost sydd yn ychwanegol uwch ben cyfanswm y Gyllideb (ac eithrio cost y Ffi Gynhyrchu) i S4C (a bydd S4C yn defnyddio'i hymdrechion rhesymol i leihau'r fath gostau ychwanegol), un ai drwy dynnu'r swm hwnnw allan o unrhyw arian sy'n daladwy i'r Cynhyrchydd gan S4C neu fel dyled gyffredin, sy'n daladwy gan y Cynhyrchydd ar gais S4C.

7.16 Oni ddarperir yn wahanol, ni fydd terfynu'r Cytundeb hwn yn amharu ar y rhoi hawliau a'r gwarantau a'r ymrwymadau a roddwyd gan y naill barti i'r llall nac ar yr holl ddyletswyddau ac indemniadau eraill sydd wedi codi neu sydd wedi eu rhoi cyn terfynu'r Cytundeb hwn, a fyddant oll yn para mewn grym llawn ac yn para i fod ag effaith lawn wedi terfynu'r Cytundeb hwn er gwaetha'r ffaith bod terfynu wedi digwydd.

## **Adran 8 - Darpariaethau Cyffredinol**

### **Aseiniad**

8.1 Mae'r Cytundeb hwn yn bersonol i'r Cynhyrchydd ac ni fydd gan y Cynhyrchydd yr hawl i aseinio'r budd ohono nac unrhyw hawliau sy'n deillio ohono heb ganiatâd ysgrifenedig S4C, a bydd gan S4C yr hawl i wrthod y caniatâd hwnnw yn ôl ei hewyllys ei hun, heblaw lle bo'r aseiniad i aelod arall o'r un grŵp o gwmnïau lle na fydd S4C yn gwrthod ei chaniatâd yn afresymol ar yr amod y bydd y Cynhyrchydd yn parhau yn atebol er gwaethaf y fath aseiniad am unrhyw dorri ar y Cytundeb hwn gan y fath aseinion.

8.2 Ni fydd y Cynhyrchydd yn rhoi i unrhyw barti arall unrhyw hawl, trwydded, cydsyniad na chaniatâd a allai neu gallasai darfu ar unrhyw un o'r hawliau neu fudd a roddwyd i S4C.

- 8.3 Bydd gan S4C yr hawl i aseinio budd y Cytundeb hwn, a bydd gan S4C yn ôl ei disgresiwn yr hawl i is-contractio dosbarthu neu Ymelwa ar y Rhaglen ac i ymdrin â'r Rhaglen fel arall mewn unrhyw ffordd yr ystyria yn gyfleus.

#### Force Majeure

- 8.4 At ddibenion y Cytundeb hwn, ystyr "Force Majeure" yw unrhyw ddigwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y naill barti neu'r llall sy'n atal y naill barti neu'r llall rhag cadw at neu gyflawni eu hymrwymadau o dan y Cytundeb hwn, gan gynnwys tân, llifogydd, damwain na ellir ei hosgoi, trychineb cenedlaethol, terfysg, Anghydfod Cyffredinol, gweithred ddwyfol, gweithredu unrhyw Ddeddf Seneddol neu weithred unrhyw awdurdod cyfansoddiadol cyfreithiol arall neu unrhyw ddigwyddiad a gyfyd o ryfel neu wrthdaro arfog, terfysgaeth/brawychiaeth (yn cynnwys, ond nid fel cyfyngiad, unrhyw gyfyngu a orfodir gan y Llywodraeth ar wasanaethau teledu cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, neu ariannu'r gwasanaethau hynny), neu unrhyw ddigwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth resymol y ddau barti, ac nad yw'n deillio o unrhyw ddiffyg pwyll rhesymol neu ragwelediad rhesymol ar ran y naill barti na'r llall, ond gan eithrio salwch neu analluedd unrhyw berson (ac eithrio'r Personél Allweddol sydd wedi eu cynnwys o fewn polisi yswiriant personél allweddol a lle bo'r fath bolisi yn cynnwys mantell ar gyfer y salwch neu analluedd dan sylw) sy'n ymwneud â gwneuthuriad y Rhaglen a heb gynnwys Anghydfodau Lleol.
- 8.5 Os digwydd gweithred o Force Majeure, bydd y parti yr effeithir arno yn rhybuddio'r llall yn ddi-oed mewn ysgrifen a, chyhyd ag y bo'r anallu i gadw at neu i gyflawni'r ymrwymadau o dan y Cytundeb hwn yn deillio o'r weithred honno o Force Majeure yn unig, ystyrir bod gweithredu'r ymrwymadau yr effeithir arnynt yn cael ei ohirio o ddyddiad y cyfryw rybudd hyd gael gwared â'r cyfryw anallu neu hyd nes y terfynir y Cytundeb hwn neu hyd nes y cymerir drosodd y cynhyrchiad. Mae'r ddau barti'n cytuno i ddefnyddio pob ymdrech resymol i leihau a chwtogi unrhyw gyfnod o oedi, a'r holl gostau a threuliau a gyfyd o achos o Force Majeure. Yn ystod unrhyw gyfnod o oedi o'r fath, ni fydd unrhyw ddyletswydd ar S4C i dalu unrhyw arian i'r Cynhyrchydd heblaw parthed ymrwymadau cytundebol y Cynhyrchydd na all y Cynhyrchydd eu hosgoi na'u gohirio y mae'r Cynhyrchydd wedi ymrwymo iddynt yn unol â gofynion y Cytundeb hwn a'r Gyllideb.
- 8.6 Os bydd gwneuthuriad neu Gyfleu'r Rhaglen yn cael ei oedi yn sylweddol oherwydd achos o Force Majeure, o ystyried yr amser a'r dyddiad y bwriadwyd darlledu'r Rhaglen, bydd gan S4C yr hawl i gymryd unrhyw gamau ac i fynnu bod y Cynhyrchydd yn cymryd unrhyw gamau y bydd S4C yn eu hystyried yn briodol er mwyn cwblhau'r Rhaglen a/neu leihau'r cyfnod o oedi a /neu'r golled ariannol sy'n deillio ohono, gan gynnwys (ond nid fel cyfyngiad) terfynu'r Cytundeb hwn (naill ai yn ei gyfanrwydd neu mewn perthynas â'r bennod (neu benodau) o'r Rhaglen yr effeithiwyd arni/arnynt) a gweithredu hawl S4C i gymryd drosodd y Rhaglen.

#### Gwrth-gyfrif

- 8.7 Heb amharu neu gyfyngu ar hawl S4C i wrth gyfrif o dan gyfraith gwlad, mae gan S4C yr hawl i osod yr holl arian sy'n ddyledus gan y Cynhyrchydd i S4C o bryd i'w gilydd neu fel arall y mae gan y Cynhyrchydd yr hawl iddo (boed o dan y Cytundeb hwn neu yn sgil unrhyw setliad neu ddyfarniad sy'n goblygu bod iawndal neu indemniad yn ddyledus i S4C mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn) yn erbyn ac i'w didynnu o'r holl arian sydd yn

daladwy i'r Cynhyrchydd gan S4C dan y Cytundeb hwn neu unrhyw Gytundeb neu drefniant arall.

### Rhybuddion

- 8.8 Y cyfeiriad a roddir i bob parti yn y Cytundeb hwn fydd y cyfeiriad dilys o ran cyflwyno rhybuddion hyd nes y bydd y naill barti'n hysbysu'r llall o gyfeiriad newydd yn y Deyrnas Unedig.
- 8.9 Ystyrir bod rhybudd wedi cael ei gyflwyno ar y Diwrnod Gwaith dilynol os bydd wedi ei gyflwyno â llaw i'r cyfeiriad dilys fel y'i nodir uchod, neu os bydd wedi ei gyflwyno i Swyddfa'r Post, a'r cyfeiriad cywir arno, a'r swm cywir wedi ei dalu ymlaen llaw ar gyfer ei ddanfôn gyda'r post dosbarth cyntaf ar yr amod os, yn unol â'r darpariaethau uchod, y byddai unrhyw rybudd fel arall yn cael ei ystyried wedi ei gyflwyno neu ei roi ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Gwaith, neu ar ôl 5.00 y.h. ar Ddiwrnod Gwaith, ystyrir bod y fath rybudd wedi ei roi neu ei gyflwyno am 9.00 y.b. ar y Diwrnod Gwaith dilynol.

### Ildio

- 8.10 Ni fydd unrhyw ildiad gan barti ar unrhyw dorri ar unrhyw rai o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn yn effeithiol oni chaiff ei roi mewn ysgrifen.
- 8.11 Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi ar ran y naill barti i'r Cytundeb hwn i ymarfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi sydd gan y fath barti o dan y Cytundeb hwn o dan unrhyw amgylchiadau yn amharu ar neu'n gwanhau'r fath hawl, pŵer neu rwymedi nac yn cymryd effaith fel ildiad ohonynt. Ni fydd unrhyw ymarferiad unigol neu rannol gan y naill barti i'r Cytundeb hwn o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi yn atal mewn unrhyw ffordd unrhyw ymarfer arall neu bellach o'r fath hawl, pŵer neu rwymedi nac ar unrhyw ymarfer o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi arall.
- 8.12 Mae'r hawliau, pwerau a rhwymedi a ddarperir dan y Cytundeb hwn yn gronol ac nid ydynt yn nacau unrhyw hawliau, pwerau neu rwymedi a ddarperir gan y gyfraith.
- 8.13 Ni ddehonglir unrhyw ildiad o unrhyw dorri ar neu fethu â chyflawni unrhyw rai o delerau'r Cytundeb hwn fel ildiad o unrhyw dor-cytundeb neu fethiant hwyrach ac ni fydd mewn unrhyw fodd yn effeithio ar delerau eraill y Cytundeb hwn.

### Cyfrinachedd

- 8.14 Mae'r naill barti a'r llall yn cydnabod ei fod ef wedi bod neu fe fydd mewn sefyllfa i dderbyn, cael gwybod neu ddarganfod Gwybodaeth Gyfrinachol.
- 8.15 Bydd y ddau barti yn cadw holl Wybodaeth Gyfrinachol y llall yn breifat ac yn gyfrinachol trwy gydol cyfnod y Cytundeb ac ar bob adeg wedi hynny ac ni fydd a bydd yn sicrhau na fydd ei bersonél yn datgelu, gwneud yn gyhoeddus neu'n cyfathrebu i unrhyw berson neu bersonau, boed hynny cyn, yn ystod neu wedi'r Cytundeb, y Wybodaeth Gyfrinachol neu unrhyw ran ohoni neu unrhyw wybodaeth arall sy'n dod i'w feddiant yn ystod neu fel canlyniad i'r Cytundeb, ar yr amod na fydd unrhyw ddatgelu gan S4C yn sgil y DdRhG ac yn unol â'r DdRhG a/neu'r rheoliadau neu godau atodol priodol neu i Ofcom neu i'r DUK neu fel arall fel y mynnir gan y gyfraith yn

dor-amod o'r cymal hwn na'r cymal dilynol. Bydd y Cynhyrchydd yn defnyddio'r Wybodaeth Gyfrinachol sy'n eiddo i S4C at ddibenion cynhyrchu a Chyfleu'r Rhaglen yn unig.

8.16 Bydd y ddau barti yn cymryd pob cam a gofal angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y Wybodaeth Gyfrinachol a ddarperir gan y llall neu unrhyw un o'i Gwmnïau Teulu o dan neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb:-

8.16.1 yn cael ei roi yn unig i'r cyfryw o'i bersonél a chynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol sydd wedi'u cyflogi i'w gynghori mewn perthynas â'r Cytundeb ag sy'n hollol angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Cytundeb a dim ond i'r fath raddau ag sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Cytundeb;

8.16.2 yn cael ei drin yn gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei ddatgelu (heb ganiatâd ysgrifenedig y perchennog ymlaen llaw) neu'i ddefnyddio gan unrhyw rai o'i bersonél neu'r cyfryw gynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol ac eithrio at ddibenion y Cytundeb.

#### Deddf Rhyddid Gwybodaeth

8.17 Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod bod S4C yn gorff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ofynion y Cod Ymarfer ar Gael Gweld Gwybodaeth y Llywodraeth (2il argraffiad) y DdRhG a'r Rheoliadau a bydd (yn ddarostyngedig i'r darpariaethau isod) yn cynorthwyo ac yn cydweithio ag S4C i alluogi S4C i gydymffurfio â'r cyfryw ofynion datgelu gwybodaeth.

8.18 Bydd S4C yn gyfrifol am bennu os yw'r wybodaeth:

8.18.1 wedi'i heithrio o'i datgelu yn unol â darpariaethau'r Cod Ymarfer ar Gael Gweld Gwybodaeth y Llywodraeth (2il argraffiad), y DdRhG neu'r Rheoliadau;

8.18.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth, ac ni fydd y Cynhyrchydd yn ymateb yn uniongyrchol ar unrhyw gyfrif i gais am wybodaeth oni ei awdurdodir yn benodol gan S4C i wneud hynny ar ran S4C.

8.19 Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod y gall S4C, yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus Adran ar Faterion Cyfansoddiadol dan Ran I y DdRhG, gael ei gorfodi i ddatgelu gwybodaeth dan y Cod Ymarfer ar Gael Gweld Gwybodaeth y Llywodraeth (2il argraffiad), y DdRhG, neu'r Rheoliadau neu gall benderfynu fod cydymffurfio â chais penodol am wybodaeth yn gwasanaethu'r budd cyhoeddus yn fwy na gwrthod y cais yn unol ag unrhyw eithriad perthnasol. Bydd S4C yn ymgynghori â'r Cynhyrchydd ble bo hynny'n ymarferol ac yn cymryd ystyriaeth o'i farn. Ble bo barn y Cynhyrchydd yn groes i'r cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan S4C, bydd S4C yn dilyn y cyngor cyfreithiol.

8.20 Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod bod unrhyw restrau neu atodlenni a ddarperir ganddo sy'n amlinellu gwybodaeth gyfrinachol yn cynnig arweiniad yn unig ac, er hynny, y gall S4C gael ei gorfodi i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol yn unol â Chymal 8.19.

#### Anghydfod

- 8.21 Os oes anghydfod rhwng y Partion, bydd y Cynhyrchydd yn darparu rhybudd ffurfiol ysgrifenedig o'r anghydfod i'r aelod o staff S4C y mae'r Cynhyrchydd wedi bod yn trafod y Rhaglen ("y Rhybudd Anghydfod").
- 8.22 Ar dderbyn y Rhybudd Anghydfod:
- 8.22.1 fe fydd yr unigolion o'r partion sydd wedi bod yn trafod yr anghydfod yn ceisio datrys yr anghydfod mewn ewyllys da;
- 8.22.2 os nad yw'r fath drafodaethau yn datrys yr anghydfod o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith o dderbyniad y Rhybudd Anghydfod gan S4C, gall y partion gyfeirio'r anghydfod at Gyfarwyddwr Comisiynu S4C a fydd yn ceisio datrys yr anghydfod mewn ewyllys da; ac
- 8.22.3 os nad yw'r fath drafodaethau yn datrys yr anghydfod o fewn deg (10) Diwrnod Gwaith o'i gyfeirio at y Cyfarwyddwr Comisiynu, gall y partion gyfeirio'r anghydfod at y Prif Weithredwr. Gall y Prif Weithredwr wahodd i gyfarfod yr unigolion y mae'r Prif Weithredwr yn ystyried yn briodol i gynrychioli'r partion. Bydd y Prif Weithredwr yn anelu i gyhoeddi ei benderfyniad/ei phenderfyniad cyn gynted â phosib yn dilyn ei gyfarfod/chyfarfod terfynol gyda'r partion.
- 8.23 Os yw'r Cynhyrchydd yn anhapus â phenderfyniad Prif Weithredwr S4C, gall y Cynhyrchydd apelio'r penderfyniad i Bwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth Awdurdod S4C a bydd adran Polisi Cwynion S4C, sydd wedi ei gyhoeddi ar Wefan S4C, yn berthnasol.
- 8.24 Ni fydd dilyn y broses a osodir yng nghymalau 8.21 i 8.23 yn atal unrhyw barti rhag cychwyn neu barhau ag achos llys yn gysylltiedig â'r anghydfod.

#### Dehongliad

- 8.25 Bydd darpariaethau'r Cytundeb hwn yn weithredol parthed pob rhan o wneuthuriad y Rhaglen gan gynnwys ( oni nodir i'r gwrthwyneb) unrhyw waith sydd wedi ei wneud cyn i'r Cytundeb hwn gael ei arwyddo.
- 8.26 Nid oes dim yn y Cytundeb hwn a fydd yn goblygu unrhyw ddyletswydd ar S4C i ddarlledu'r Rhaglen.
- 8.27 Cytunir bod y Cynhyrchydd yn ymrwymo i'r Cytundeb hwn ac yn ymgymryd â'i ddyletswyddau fel contractwr annibynnol, ac ni fydd dim yn y Cytundeb hwn sy'n awgrymu bod unrhyw fath o bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y Cynhyrchydd ac S4C, ac ni fydd y naill barti na'r llall yn honni ei fod yn gweithredu fel asiant ar ran y llall, oni bai bod hynny'n cael ei grybwyll yn benodol yn y Cytundeb hwn.
- 8.28 Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo ac yn cytuno y bydd y Cynhyrchydd yn ymrwymo i'r holl gytundebau sy'n berthnasol i wneuthuriad y Rhaglen fel pennaeth y cytundeb hwnnw, ac na fydd gan S4C unrhyw gyfrifoldeb fel pennaeth nas dadlennwyd y Cynhyrchydd, ac na fydd y Cynhyrchydd yn ymrwymo credyd S4C nac yn gwneud unrhyw drefniadau cytundebol ar ran S4C. Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod na fydd y Cynhyrchydd yn gallu hawlio dim yn erbyn S4C mewn perthynas â cholli'r cyfle i hyrwyddo enw da'r Cynhyrchydd neu fel arall os bydd S4C yn terfynu'r Cytundeb hwn



neu'n rhoi'r gorau i gynhyrchu'r Rhaglen neu unrhyw ran ohoni yn sgîl Cymal 7.

- 8.29 Os bydd Llys yn gwahardd unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, neu'n barnu bod unrhyw un o'r darpariaethau hynny'n anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n un na ellir ei gweithredu, yna bydd cymaint ag sy'n angenrheidiol o'r ddarpariaeth honno'n cael ei ddileu o'r Cytundeb hwn, a'i wneud yn aneffeithiol, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl heb newid y darpariaethau sydd yn weddill yn y Cytundeb hwn ac ni fydd yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw amgylchiadau eraill nac ar ddilysrwydd na gweithredu'r Cytundeb hwn.
- 8.30 Dehonglir y Cytundeb hwn fel cytundeb a wnaed yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i Gyfreithiau Cymru a Lloegr a'i fod yn ymgorffori'r holl delerau ac amodau a gytunwyd rhwng y partïon, ac ni fydd yn cael ei newid ar wahân i drwy gytundeb ysgrifenedig wedi ei arwyddo gan gynrychiolwyr awdurdodedig y ddau barti. Mae'r partïon yn cydnabod nad ydynt wedi dibynnu ar unrhyw ddatganiadau neu osodiadau ar ran y llall na swyddogion neu weithwyr cyflogedig y llall ac eithrio'r rhai a ymgorfforir yn benodol yn y Cytundeb hwn.

#### Atal Llygredigaeth a Thwyll

- 8.31 Ni fydd y Cynhyrchydd yn cynnig neu roi, neu'n cytuno i roi, i S4C neu i unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobr am wneud, peidio â gwneud, neu am fod wedi gwneud neu wedi peidio â gwneud, unrhyw weithred amhriodol mewn perthynas â sicrhau neu weithredu'r Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafriaeth neu anffafriaeth tuag at unrhyw berson mewn perthynas â'r Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb o'r fath.
- 8.32 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu nad ydyw wedi talu comisiwn neu wedi cytuno i dalu comisiwn i S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall mewn perthynas â'r Cytundeb hwn.
- 8.33 Bydd y Cynhyrchydd yn cymryd pob cam rhesymol i atal Twyll gan y Cynhyrchydd a/neu ei staff (gan gynnwys ei gyfranddalwyr, aelodau a chyfarwyddwyr) mewn perthynas ag unrhyw arian a dderbynnir gan S4C a bydd yn hysbysu S4C ar unwaith os oes ganddo reswm i amau fod unrhyw Dwyll wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd.
- 8.34 Os bydd y Cynhyrchydd, ei staff neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y Cynhyrchydd, yn ymddwyn mewn modd a waherddir gan gymalau 8.31 neu 8.32 uchod ac/neu yn cymryd rhan mewn Twyll mewn perthynas â'r Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C, gall S4C:
- (a) roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd i naill ai derfynu'r Cytundeb ar unwaith neu gymryd drosodd y broses o gynhyrchu'r Rhaglen yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn; a/neu
  - (b) adennill yn llwyr gan y Cynhyrchydd unrhyw golled a ddiodefir gan S4C o ganlyniad i dorri'r fath gymalau ac unrhyw golled a ddiodefir

gan S4C o ganlyniad i derfyniad y Cytundeb hwn a/neu gymryd drosodd cynhyrchiad y Rhaglen.

**ATODLEN 1**

**Briff Golygyddol a Busnes**

**Dechrau Canu Dechrau Canmol [ \_\_\_\_\_ ]**

(Gweler y ddogfen sydd ynghlwm)

## **ATODLEN 2**

### **Y Gyllideb**

#### **Dechrau Canu Dechrau Canmol [ \_\_\_\_\_ ]**

[I'w gwblhau]

### **ATODLEN 3**

#### **Cadarnhad Hawliau**

#### **Dechrau Canu Dechrau Canmol [ \_\_\_\_\_ ]**

##### **A. LLEIAFSWM YR HAWLIAU Y MAE'N OFYNNOL EU CYNNWYS YN Y GYLLIDEB:**

Yr hawl i ganiatáu'r Educational Recording Agency Limited i drwyddedu sefydliadau addysgiadol i ddefnyddio'r Rhaglen at ddibenion addysgiadol yn unol ag Adran 35 y Ddeddf; a

Bydd gan S4C yr hawl i Ymelwa ar y Rhaglen heb gyfyngiad i amseriad nac niferoedd y Darllediad ac heb unrhyw daliad pellach i'r Cynhyrchydd, i unrhyw gyfrannwr i'r Rhaglen (gan gynnwys fel esiampl ac er mwyn osgoi amheuaeth cerddoriaeth a gyfansoddwyd yn wreiddiol, cyfraniadau cerddorion sydd wedi eu cyflogi ar y ffi cyfunol (combined use fee), cyfraniadau cyflwynwyr, teitlau a graffeg) neu unrhyw fater arall heblaw am yr hyn a nodir isod.

[I'w gwblhau]

##### **B. YMELWA**

1. Bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau ar ran S4C o fewn cyfanswm y Gyllideb yr hawliau i Ymelwa ar y Rhaglen ar yr amod yn unig fod S4C neu ei drwyddedeion yn talu'r Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau ar gyfer defnydd nad oes angen ei brynu o flaen llaw o fewn Cyllideb y Rhaglen dan Baragraff A uchod.

#### **Nodyn Pwysig**

Cyfeirir y Cynhyrchydd at Gymal 1 at ddiben darllen a deall y diffiniad o'r "Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau". Mae'r diffiniad o'r "Deunydd Trydydd Partïon" a Chymalau 2 a 5 mewn perthynas â chlirio deunydd yn gyffredinol hefyd yn berthnasol.

##### **2. Enillion Net**

Rhennir yr Enillion Net yn 70% i S4C a 30% i'r Cynhyrchydd ym mhob cyfrwng ledled y byd.

##### **C. TRWYDDEDAU AC YN Y BLAEN Y CYFEIRIR ATYNT YNG NGHYMAL 2.15**

Bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau'r hawliau, trwyddedau, cliriadau, ildiadau, caniatâd neu ryddhad canlynol erbyn yr adegau a nodir isod:

Mewn perthynas â phob cynhyrchydd a chyfarwyddwr sydd yn cyfrannu i'r Rhaglen, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau pob hawl, trwydded, cliriad, ildiad, caniatâd neu ryddhad angenrheidiol (gan gynnwys ond heb gyfyngiad aseiniad o'u holl hawliau, teitl a diddordeb yn hawlfraint y Rhaglen ac ildiad o'u hawliau moesol ond yn achos unrhyw gyfarwyddwr yn ddarostyngedig i hawliau'r DPRS – gweler paragraff A uchod) yn unol â Chymal 2.4 cyn neu erbyn diwrnod cyntaf y cyfnod cyn-gynhyrchu;

Mewn perthynas â sgriptiau ac unrhyw frasluniau neu driniaethau y mae'r sgript(iau) yn deillio ohonynt, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau pob hawl, trwydded, cliriad, ildiad, caniatâd neu ryddhad angenrheidiol (gan gynnwys ond heb gyfyngiad aseiniad gan yr awdur(on) o'r hawliau rhentu a benthyca yn y gwaith) yn unol â Chymalau 2.15 a 2.18 cyn neu erbyn diwrnod cyntaf y cyfnod cynhyrchu;

Mewn perthynas â'r gweddill, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau pob hawl, trwydded, cliriad, ildiad, caniatâd neu ryddhad angenrheidiol yn unol â Chymal 2.15 cyn neu erbyn y Dyddiad Cyfleu ar gyfer y bennod berthnasol o'r Rhaglen.

#### CH. YR ARWYDDGAN

**[*Cymalau penodol ar gyfer yr arwyddgan i'w cynnwys yn ddibynnol ar anghenion y cynhyrchiad.* ]**

#### D. AMODAU ARBENNIG

1. Nenfwd/Uchafswm o ran cyfran y Cynhyrchydd o unrhyw Danwariant 25% o'r Ffi Gynhyrchu sy'n briodol i'r Rhaglen

[i'w gwblhau]

## **ATODLEN 4**

### **Deunydd Cyfleu**

#### **Dechrau Canu Dechrau Canmol [ ]**

Cyflëir y deunydd canlynol i S4C erbyn y dyddiadau canlynol, ac os methir a gwneud hynny (mewn unrhyw achosion unigol) bydd gan S4C yr hawl i ddiynnu iawndal ariannol penodedig o £100 y diwrnod o ran y Copi Darlledu a'r ffioedd sydd wedi eu nodi yn y ddogfen 'Ffioedd Cyfleu Hwyr' sydd ar Wefan Gynhyrchu S4C neu i'w hawlio fel dyled sy'n daladwy gan y Cynhyrchydd yn syth ar hawliad S4C:

[I'w gwblhau]

**ATODLEN 5**

**Dylif Ariannol**

**Dechrau Canu Dechrau Canmol [ \_\_\_\_ ]**

[I'w gwblhau]



**ATODLEN 6**

**Cerrig Milltir**

**Dechrau Canu Dechrau Canmol [ \_\_\_\_\_ ]**

[I'w gwblhau]

YN DYST I HYN mae'r Cytundeb hwn wedi ei arwyddo gan gynrychiolwyr awdurdodedig y partïon y dyddiad a'r flwyddyn a nodwyd uchod yn gyntaf.

Arwyddwyd gan ac ar ran  
**y Cynhyrchydd**

Arwyddwyd gan ac ar ran **S4C**

.....  
**Cyfarwyddwr**

.....  
**Cyfarwyddwr**